Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Adroddiad Blynyddol 2024 – 2025

Gweld Rhywbeth, Dweud Rhywbeth

MAE DIOGELU YN FUSNES I BAWB

	Mynegai:	Tudalen
	Cyflwyniad:	3
	Amcanion y Byrddau Diogelu	4
1.	Ynghylch Byrddau Diogelu Gogledd Cymru	4
2.	Y Camau Gweithredu a gymerwyd gan y Byrddau Diogelu i gyflawni amcanion penodol.	6
3.	I ba raddau mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei Gynllun Blynyddol mwyaf diweddar.	9
4.	Sut mae'r Byrddau Diogelu wedi cydweithio gyda phobl neu gyrff eraill sy'n ymgysylltu â gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y bwrdd?	13
5.	Unrhyw geisiadau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wneud i bersonau cymwys dan adran 137(1) y Ddeddf ar gyfer gwybodaeth benodol, ac a gydymffurfiwyd yn unol â'r ceisiadau.	14
6.	Cyflawniadau'r Bwrdd Diogelu yn ystod y flwyddyn.	15
7.	I ba raddau cyfrannodd pob aelod y Bwrdd Diogelu at effeithiolrwydd y Bwrdd.	17
8.	Asesiad o sut ddefnyddiodd y Byrddau Diogelu eu hadnoddau i arfer eu swyddogaethau neu gyflawni eu canlyniadau.	20
9.	Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r Byrddau Diogelu yn arfer eu swyddogaethau fel y ddengys mewn dadansoddiad o achosion y mae wedi delio â hwy, ac unrhyw newidiadau y mae wedi ei roi ar waith o ganlyniad	24
10.	Y nifer o orchmynion amddiffyn oedolion a chefnogi a ddefnyddiwyd yn ardaly Bwrdd Diogelu.	26
11.	Pryd a sut oedd plant neu oedolion yn arfer cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu.	26
12.	Unrhyw wybodaeth neu addysg mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wasgaru, neu hyfforddiant y mae wedi ei argymell neu ei ddarparu.	27
13.	Sut mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw ganllaw neu gyngor a roddir gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol.	28
14.	Materion eraill yn berthnasol i waith y Byrddau Diogelu.	28
15.	Enghraifft Arfer Da	31
	Geirfa	

Rhagymadrodd:

Mae'n bleser gennym gyflwyno ar y cyd, Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn erbyn y canlyniadau a nodwyd gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (BDOGC) a Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) fel rhan o'n cydgynllun Strategol Blynyddol ar gyfer 2024-5.

Mae hi wedi bod, ac yn parhau i fod, yn amser prysur a heriol i bawb sy'n ymwneud â'r maes diogelu; gyda phwysau cynyddol ar bob system ac effaith barhaus cyni ariannol a'r argyfwng costau byw. Rydym yn gweld effaith anghymesur y cyd-destun hwn ar bobl sydd eisoes yn ddiamddiffyn.

Rydym yn hynod o ddiolchgar i holl bartneriaid y bwrdd sydd wedi cefnogi a gwneud gwaith i fwrdd Diogelu Gogledd Cymru, gan greu darlun llawer gwell o'n pryderon a'n cyraeddiadau diogelu wrth gadw pobl yn ddiogel, a chynhyrchu syniadau ar gyfer atebion a ffyrdd arloesol o godi ymwybyddiaeth, gan atal camdriniaeth ac esgeulustod, ac amddiffyn plant ac oedolion yn y rhanbarth.

Rhan allweddol o swyddogaeth y bwrdd diogelu yw ceisio sicrwydd gan bartneriaid bod trefniadau diogelu yn effeithiol. Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi symud i Fwrdd Diogelu ar y Cyd Gogledd Cymru ac wedi adolygu strwythur yr is-grŵp i fodloni'r heriau a ganfuwyd.

Rhaid i ni gydnabod bod gennym nifer o adolygiadau ymarfer o fewn y rhanbarth yn digwydd sydd wedi denu diddordeb sylweddol gan y cyfryngau a'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn; a rhaid i ni fel bwrdd diogelu rhanbarthol sicrhau bod y gwersi o'r adolygiadau hyn yn cael eu gweithredu.

Mae'r adroddiad yn disgrifio'r gwaith caled a wnaed gan gydweithwyr mewn is-grwpiau i ddatblygu ein hymrwymiad cyffredin i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod. Mae'r gwaith caled hwn yn ystyriol ac yn broffesiynol, yn dangos arbenigedd ac ymrwymiad i ddatblygu ymarfer a gwella gwasanaeth. Rydym yn parhau i weithio'n galed i ddangos y gwahaniaeth mae'r holl waith hwn wedi ei wneud. Bu i ni gynnal diwrnod datblygu hynod o werthfawr ble buom yn ystyried y gwersi oedd ar gael o adolygiadau ymarfer diogelu a dadansoddiadau perfformiad.

Mae gennym wefan a ddiweddarwyd, sy'n parhau i gael ei gwella ymhellach, ac ymgysylltiad cyfryngau cymdeithasol gweithredol iawn i gefnogi ymwybyddiaeth ac ymarfer diogelu. Rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i glywed llais y rhai sydd â phrofiad go iawn; bydd hyn yn allweddol o ran ein gwaith yn y flwyddyn i ddod.

Yn olaf, hoffem ddiolch i aelodau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ac is-grwpiau am eu hymgysylltiad, eu hymrwymiad a'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond yn bwysicaf oll i'r holl weithlu diogelu ar draws y rhanbarth.

Jenny Williams

N. M. Stubbins

Jenny Williams
Cyd-Gadeirydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Nicola Stubbins
Cyd-Gadeirydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Amcanion y Byrddau Diogelu:

Nid yw gwasanaethu dinasyddion a chymunedau amrywiol rhanbarth Gogledd Cymru, sy'n cynnwys chwe ardal Awdurdod Lleol, yn dod heb heriau sylweddol yn ei sgil. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd a'i aelodau'n parhau i fod yn falch o'r ethos cryf o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth sydd wedi'i sefydlu ar lefel yr uwch fwrdd gweithredol a'r is-grwpiau. Edrychwn ymlaen at y flwyddyn i ddod ac at barhau i adeiladu ar y sylfeini cadarn a sefydlwyd yn y pum mlynedd ddiwethaf er mwyn cyflawni ein hamcanion a'n dyhead i gyrraedd rhagoriaeth mewn gwaith Diogelu, ymarfer proffesiynol, a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n cymunedau.

Mae amddiffyn ac atal plant ac oedolion mewn perygl rhag profi unrhyw niwed a hybu lles trigolion Gogledd Cymru, gan alluogi iddynt gyflawni canlyniadau gwell, yn parhau i fod yn ganolog i waith y Bwrdd.

Mae meysydd wedi'u nodi ar gyfer gwelliant parhaus, a fydd yn galluogi'r Bwrdd a'i aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel yr amlinellir yn Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i amddiffyn ac atal plant ac oedolion mewn perygl yn y rhanbarth rhag profi camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed.

1.0 Ynglŷn â Byrddau Diogelu Gogledd Cymru:

Adeiledd:

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn, mae yna hefyd, Ddiwrnod Datblygu Busnes a gynhelir yn flynyddol, i osod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac i hunanasesu cynnydd y Byrddau.

Mae Grŵp Adolygu Achosion Oedolion ADUS, y Grwpiau Cyflawni Ymarfer Rhanbarthol a'r Grwpiau Polisïau a Gweithdrefnau'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter. Mae Grŵp Adolygu Achosion Plant ADUS a'r Grŵp Gweithlu a Hyfforddiant ar y Cyd yn cyfarfod bob dau fis. Cynhelir cyfarfodydd ar-lein yn bennaf ond mae'r byrddau'n dychwelyd yn rhannol i gyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Strwythur



North Wales Safeguarding Board membership

Cyd-Gadeirydd: Jenny Williams, Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol ac Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyd-Gadeirydd: Nicola Stubbins – Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol Ac Addysg, Cyngor Sir Ddinbych

Cyd-Is-Gadeirydd: Michelle Denwood, Cyfarwyddwr Diogelu a Diogelu'r Cyhoedd, Bwrdd Lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cyd-Is-Gadeirydd: Jacqueline Downes, Ditectif Uwcharolygydd / Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn, Heddlu Gogledd Cymru

Cyngor Ynys Môn - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Pennaeth Gwasanaethau Oedolion. Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

Cyngor Gwynedd – Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth Gwasanaethau Iechyd a Lles Oedolion. Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Pennaeth Addysg

CBS Conwy – Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu, Pennaeth Addysg.

Cyngor Sir Ddinbych - Cyd-bennaeth Gwasanaeth Addysg a Phlant - Gofal Cymdeithasol Plant. Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

Cyngor Sir y Fflint - Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol. Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu. Pennaeth Addysg

CBS Wrecsam – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol / Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Uwch Bennaeth Gwasanaeth - Gofal Cymdeithasol Plant. Pennaeth Addysg

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Rheolwr Tîm Atal Tanau Bwriadol ac Addysg Busnes

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - Pennaeth Yr Uned Brawf Leol, Gogledd Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru – Nyrs Dynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Arbenigwr Diogelu, Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion

Barnardo's - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant

Cynrychiolydd Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid – Rheolwr Gwasanaeth Atal a Chefnogi.Uwch Reolwyr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Doctor Penodedig Diogelu Plant, Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dirprwy Lywodraethwr, Carchar EM Berwyn

Fforwm Gofal Cymru – Cyngor Polisi ar gyfer Gogledd Cymru a Phowys

Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth, Rheolwr Prosiect HOPE, Age Cymru

2.0 Y Camau Gweithredu a gymerwyd gan y Byrddau Diogelu i gyflawni amcanion penodol.

Ailstrwythuro Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru:

Yn ystod 24/25 penderfynwyd symud i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar y Cyd yn hytrach na chael dau Fwrdd ar wahân ar gyfer Oedolion a Phlant. O Fedi 24, mae'r Bwrdd bellach yn Fwrdd ar y Cyd gyda chyd-gadeiryddion.

Y rhesymeg dros y penderfyniad oedd adlewyrchu rhaglen ddiogelu pob oedran Cymru a'r themâu ymarfer a rennir o fewn plant ac oedolion.

Datblygwyd cylch gorchwyl diwygiedig. Bydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar y Cyd yn gweithio o fewn swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd Bwrdd Diogelu fel mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn eu nodi:

a) Cyfrannu tuag at sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol yn cael eu monitro ac yn parhau'n addas i'r diben, drwy ymgysylltu gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu eraill, a chyfrannu at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau i gydlynu beth sy'n cael ei wneud gan bartneriaid a chyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd at bwrpas gwarchod oedolion a phlant ac atal camdriniaeth, esgeulustod, a mathau eraill o niwed i blant ac oedolion o fewn ardal y Bwrdd.

b) Codi ymwybyddiaeth drwy ardal y Bwrdd o amcanion y Bwrdd i warchod ac atal oedolion a phlant rhag bod mewn peryg o gamdriniaeth, esgeulustod a ffurfiau eraill o niwed, a darparu gwybodaeth am sut mae modd cyflawni hynny.

c) Adolygu effeithiolrwydd mesurau mae partneriaid y Bwrdd Diogelu a chyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd yn eu cymryd, a chyrff sydd â chyfrifoldebau diogelu o fewn ardal y Bwrdd, un ai'n unigol neu ar y cyd, i weithredu amcanion y Bwrdd a gwneud pa bynnag argymhellion mae'n eu gweld yn addas i'r cyrff hynny o ganlyniad i adolygiad o'r fath.

d) Cynnal Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl.

e) Ceisio cyngor neu wybodaeth arbenigol lle mae'r Bwrdd yn credu bod hynny'n berthnasol i'w gynorthwyo i weithredu ei amcanion.

Yn ogystal, creodd yr Uned Fusnes broffil rôl newydd ar gyfer Cyd-gadeiryddion ac Aelodau'r Bwrdd (gweler isod).

Mae aelodau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar y Cyd yn unigolion gyda rôl strategol neu ymgynghorol mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion o fewn eu hasiantaeth/sefydliad. Maent yn y safle i:

- Gynrychioli eu hasiantaeth, sefydliad neu grŵp cynrychioladol o bobl gydag awdurdod llawn. Wrth wneud hynny, mynegi pryderon ar eu rhan, cyfrannu at drafodaeth a sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei ledaenu yn ôl i'r grŵp, asiantaeth neu sefydliad cynrychioladol hwnnw.
- Ymrwymo eu hasiantaeth/sefydliad ar faterion polisi ac arferion.
- Ymrwymo adnoddau o'u hasiantaeth/sefydliad i gefnogi gwaith y Bwrdd ac is-grwpiau. Bydd hyn yn cael ei gofnodi trwy gofrestr o gynrychiolwyr a gedwir o fewn yr Uned

Fusnes.

- Bod yn gyfrifol am ddarparu ymrwymiadau asiantaeth unigol i'r Bwrdd.
- Cyfrannu'n weithredol at gwblhau tasgau hunanasesu er mwyn galluogi'r Bwrdd Diogelu i gael sicrwydd o drefniadau diogelu unigol asiantaethau partner ar draws y rhanbarth.
- Cyfrannu'n weithredol at geisiadau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar y Cyd i ddarparu gwybodaeth perfformiad a monitro ar gyfer dibenion o sicrhau ansawdd effeithiolrwydd y Bwrdd.
- Trosi nodau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar y Cyd i weithgareddau o fewn eu hasiantaeth eu hunain, gan sicrhau dolenni priodol at adnoddau a gwefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar y Cyd.
- Cyfrannu'n weithredol ar ddatblygiad Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar y Cyd a darparu her a chefnogaeth briodol i'r Bwrdd yn ôl y gofyn.
- Clustnodi materion o ran cyflawni datblygiadau diogelu lleol, cynrychioli barn a blaenoriaethau'r Bwrdd, ac adrodd yn ôl am gerrig milltir a chanlyniadau.
- Hefyd gwnaed y penderfyniad i ailstrwythuro'r Grwpiau Cyflawni Lleol i fodloni'r blaenoriaethau gwaith a nodwyd gan y gwaith a gomisiynwyd gan BDAC trwy Brifysgol Metropolitan Manceinion.

O Orffennaf 25 gwnaed y penderfyniad i symud i un Grŵp Cyflawni Rhanbarthol Oedolion ac un Grŵp Cyflawni Plant Rhanbarthol.
Pwyntiau i'w hystyried:

- Mae symud i un Grŵp Cyflawni Plant ac un Oedolion yn lleihau'r nifer o gyfarfodydd is-grŵp.
- Gobeithiwn y bydd y strwythur newydd arfaethedig yn gwella presenoldeb a lleihau'r galw o ran canfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion.
- Mae'r gofynion o Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn sylweddol ac yn creu gofynion ychwanegol nad all yr Uned Fusnes eu diwallu heb gynyddu'r cyllid/adnoddau.

Canolbwynt y Grŵp Cyflawni	**Eitemau ar gyfer eu hystyried**
Chwarter 1 - Themâu Ymarfer Allweddol	Canolbwynt yr amserlen waith ar gyfer 12 mis nesaf ❖ Perfformiad ❖ Archwilio ❖ Cynlluniau Gweithredu LlC ❖ Materion ymarfer allweddol ❖ Cysylltiadau gyda phecynnau gwaith NISB
Chwarter 2 - Perfformiad	Adroddiadau Perfformiad Aml Asiantaeth Cytunedig
Chwarter 3 - Archwilio / Profiad Byw y oedolion / plentyn	Myfyrdod ar Archwiliadau Aml Asiantaeth
Chwarter 4 - Perfformiad	Adroddiadau Perfformiad Aml Asiantaeth Cytunedig

2.2: Cynyddu'r gronfa o Gadeiryddion ac Adolygwyr o fewn y Rhanbarth er mwyn bodloni gofynion y SUSR

Mae'r BDGC yn ogystal â'r hyfforddiant cenedlaethol a hwyluswyd gan Fwrdd Diogelu Canolbarth Cymru, wedi comisiynu hyfforddwr o Ogledd Cymru a fyddai'n gallu darparu'r deunyddiau

hyfforddi a ddatblygwyd a bob chwech mis gallent ddarparu hyfforddiant yn y rhanbarth ar gyfer Cadeiryddion ac Adolygwyr. Yn ystod 24/25 mae BDGC wedi cynnal dau ddigwyddiad penodol i Gadeiryddion ac Adolygwyr yn y rhanbarth.

Mae BDGC wedi diweddaru gwefan BDGC i sicrhau bod gwybodaeth ar y SUSR ar gael.

Mae'r Uned Fusnes wedi cyflwyno mewn nifer o fforymau i annog swyddogion i ddod yn Gadeiryddion / Adolygwyr wrth fynd ymlaen.

2.3: Rheoli Adolygiad Ymarfer Plant Arbenigol

Gwnaed atgyfeiriad dechreuol Adolygu Ymarfer Plant i'r is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant ym Mawrth 2024 ar y cyd gan Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd. Roedd yr atgyfeiriad a wnaed mewn perthynas â phump o blant a oedd wedi bod yn destun camdriniaeth gan gyn Bennaeth.

Roedd yr is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant yn cytuno bod angen adolygiad ymarfer; fodd bynnag, byddai angen trafod hyn gydag Uned Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru er mwyn egluro'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer yr adolygiad.

Mae Rhan 7 y Canllawiau yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 'Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl' Rhifyn 2 - Adolygiadau Ymarfer Plant yn cynnwys Atodiad 3 Cyflawni adolygiad mewn achos o gamdriniaeth drefnedig neu luosog hanesyddol.

Yn sgil y nifer o blant a oedd yn destun y gamdriniaeth, rydym wedi cyfeirio at Atodiad 3 i ddarparu'r fframwaith ar gyfer yr adolygiad ymarfer hwn.

Un o heriau ar gyfer BDGC o ran cyflawni'r adolygiad hwn oedd o ran canfod Cadeiryddion ac Adolygwyr a oedd yn annibynnol a heb unrhyw gysylltiadau blaenorol i Awdurdodau Addysg Gogledd Cymru.

Wrth geisio Cadeirydd ac Adolygwyr, nododd BDGC y gofynion canlynol:

- Profiad blaenorol o gyflawni adolygiadau ymarfer mewn lleoliad addysgol.
- Dim cysylltiadau â'r Pennaeth / Cyngor Gwynedd.
- Gwybodaeth gefndir / profiad ymarferol mewn Diogelu.
- Deall Fframwaith Cyfreithiol Diogelu yng Nghymru, gan gynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chadw Dysgwyr yn Ddiogel - Canllaw Addysg.
- Roedd hefyd yn ofynnol i o leiaf un adolygwr fod yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae BDGC wedi gallu canfod Cadeirydd a dau adolygwr a oedd yn gallu bodloni'r meini prawf uchod.

Fel arfer bydd llinell amser Adolygiad Ymarfer Plant yn 12-24 mis. Yn yr Adolygiad Ymarfer Plant hwn rydym wedi ymestyn y llinell amser i gyfnod o bum mlynedd, gyda hyblygrwydd ychwanegol o ran yr amserlen.

Mae BDGC wedi defnyddio ei adnoddau ariannol i gomisiynu Cadeirydd ac Adolygwyr yn ogystal â chymorth gweinyddol ychwanegol ar gyfer yr adolygiad hwn.

Mae'r costau ychwanegol wedi cael eu codi yn sgil y materion a thasgau ychwanegol canlynol:

- Roedd rhaid i'r Cadeirydd a'r Adolygwyr gyfweld â'r unigolion a oedd wedi bod neu'n parhau i fod yn

rhan gyda'r unigolion dan sylw er mwyn cael darlun cyfannol o'r diwylliant a digwyddiadau.

- Roedd rhaid i'r Cadeirydd a'r Adolygwyr dreulio amser helaeth yn yr ysgol. Roedd hyn er mwyn galluogi'r tîm adolygu i fynd trwy holl systemau cofnodi'r ysgol. I ddarparu fforwm diogel i staff addysg a disgyblion ysgol drafod eu pryderon o ran yr adolygiad ac i uwchgyfeirio unrhyw faterion allweddol.
- Nid oes gan y gymuned leol lawer o hyder o ran uwch swyddogion o fewn y Cyngor ac felly roedd hyn yn rhoi gofynion cynyddol ar y Cadeirydd a'r tîm adolygu i roi sicrwydd i'r aelodau etholedig o ran y broses adolygu.
- Byddai adolygiad Ymarfer Plant fel arfer yn cynnal un digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr aml asiantaeth a oedd yn rhan uniongyrchol o'r achos, tua 20-25 o ymarferwyr. Yn yr achos hwn, roedd y tîm adolygu wedi canfod oddeutu 100 o ymarferwyr a oedd yn rhan uniongyrchol ac a fyddai'n gallu cyfrannu tuag at y digwyddiad dysgu. Yn 24.25 rydym wedi cynnal pedwar digwyddiad dysgu hyd yn hyn.
- Er mwyn cefnogi'r Cadeirydd a'r Adolygwyr, mae BDGC wedi gorfod comisiynu cymorth gweinyddol ychwanegol.

3.0 I ba raddau mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei Gynllun Blynyddol mwyaf diweddar.

3.1 Blaenoriaeth Strategol 1 – Ymateb yn effeithiol i'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer / archwiliadau rheoleiddio ac adolygiadau eraill (BDGC):

Mewn perthynas â Blaenoriaeth Strategol 1, mae'r Bwrdd wedi ymgymryd â'r camau gweithredu canlynol:

Archwiliadau Rheoleiddio:

Ymatebodd BDGC i Gynllun Gwella'r Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant drwy amlygu'r pecynnau gwaith canlynol i'r arolygiaeth:

Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud yng ngogledd Cymru ar fframwaith ymarfer Amddiffyn Plant yn Effeithiol. Mae'r Fframwaith wedi ei gynllunio i fynd i'r afael â'r cwestiwn 'sut ydym yn gwybod a yw ein gwaith amddiffyn plant yn effeithiol?'

Un o elfennau allweddol y fframwaith yw dangos newid a amlygir yn adroddiad y gynhadledd / y cynllun amddiffyn – ffocws clir ar y newid sydd ei angen i atal niwed.

Mae'n rhaid i bob Adroddiad Gwaith Cymdeithasol i Gynhadledd wneud y canlynol:

- Darparu dadansoddiad o'r perygl o niwed sylweddol.
- Darparu datganiad ynglŷn â'r hyn sydd angen newid i gadw'r plentyn yn ddiogel; mae hyn yn un o nodweddion allweddol Amddiffyn Plant yn Effeithiol. Mae hyn yn ofynnol ym mhob Adroddiad Gwaith Cymdeithasol i Gynhadledd.
- Mae pob awdurdod lleol ledled gogledd Cymru wedi ymwreiddio'r fframwaith.

Enghraifft o Ymarfer – Cyngor Sir Ddinbych

Seminarau Dysgu – cynhaliwyd cyfres o seminarau dysgu yn 2024/25, wedi eu hwyluso gan Uned Diogelu ac Ansawdd Ymarfer. Y sesiwn gyntaf, a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2024, oedd 'Yn ôl at yr Hanfodion – Cynadleddau Amddiffyn Plant'. Yn y sesiwn hon eglurwyd disgwyliadau a rhannwyd arferion da, yn cynnwys adroddiadau cynhadledd ar gyfer grwpiau o frodyr a chwiorydd, gwahoddiadau, hysbysu rhieni, rhannu adroddiadau, eiriolaeth, arwyddion o ddiogelwch a sgyrsiau cydweithredol.

Enghraifft o Ymarfer – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae Conwy bellach yn cyflawni adroddiad cryno amddiffyn plant yn dilyn cynadleddau achos cychwynnol a chynadleddau adolygu, a amlygir yn Adolygiad Cyflym Amddiffyn Plant AGC ac fel y mynnir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, sy'n darparu gwybodaeth i bawb a wahoddir i gynhadledd am y penderfyniad a wnaed yn y gynhadledd ynglŷn â'r plentyn, gan nodi a oedd y plentyn wedi ei roi ar gofrestr amddiffyn plant Conwy, neu'n aros ar y rhestr, ynghyd ag amlinelliad o'r cynllun amddiffyn gofal a chymorth.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi derbyn yr adroddiadau archwiliadau canlynol, ac wedi ystyried y canfyddiadau a sicrhau ansawdd yr ymateb i'r adroddiadau:

- Adroddiad Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych.
- Arolygiad PEEL Heddlu Gogledd Cymru

Dysgu o Adolygiadau Ymarfer:

Wrth ymateb i ddysg o adolygiadau ymarfer, rhennir pob adolygiad ymarfer gyda'r grwpiau cyflawni. Datblygir briff 7 munud i sicrhau bod y negeseuon allweddol mewn fformat sy'n hygyrch i ymarferwyr.

Gofynnir hefyd i'r adolygwyr gynnal gweithdy briffio ar gyfer ymarferwyr yn y rhanbarth.

Mae BDGC hefyd yn ymateb i ddysg o adolygiadau sy'n mynd rhagddynt.

Mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant presennol, yn dilyn ei ymweliadau cychwynnol ag ysgol, nododd y tîm adolygu bryderon ynglŷn â diffyg cydymffurfiaeth ag arferion cofnodi, yn ymwneud â phryderon ynglŷn â digwyddiadau / pryderon diogelu o fewn yr ysgol.

Ceisiodd Cadeirydd y Bwrdd sicrwydd gan y chwe Phennaeth Addysg ynglŷn ag adrodd am ddiogelu ac arferion cofnodi mewn ysgolion. O'r wybodaeth a gasglwyd, mae'n amlwg bod gan yr holl Awdurdodau Lleol systemau ar waith er mwyn adrodd am bryderon diogelu, ond nid yw pob un yn defnyddio systemau meddalwedd fel MyConcern.

Yn ogystal, mewn perthynas â'r adolygiad hwn, fel Bwrdd, yn 2024/25, yr ydym wedi cynnal dau ddigwyddiad hyfforddi ar gyfer Unigolion Diogelu Dynodedig mewn Addysg. Cyflwynwyd cwrs hyfforddiant 1 diwrnod ar Gam-drin Plant yn Rhywiol ar gyfer Unigolion Diogelu Dynodedig mewn Addysg gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol a Chanolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru.

Yr oedd yr hyfforddiant yn trafod y meysydd canlynol:

- Dealltwriaeth o raddau cam-drin plant yn rhywiol.
- Yr heriau a'r rhwystrau ymarferol.
- Effaith cam-drin rhywiol ar blant.
- Arwyddion a dangosyddion.

- Datgeliadau plant.
- Dull ysgol gyfan.

Mae Rheolwr Busnes y Bwrdd hefyd wedi rhoi cyflwyniad i'r chwe Phennaeth Addysg ar y themâu ymarfer sy'n dod i'r amlwg mewn Adolygiadau Ymarfer Plant ledled y rhanbarth. Mae gwaith ar y gweill gydag Arweinwyr Diogelu ym maes Addysg i ymateb i'r themâu sy'n dod i'r amlwg.

Fel rhan o waith Sicrwydd Ansawdd, byddwn yn cynnal archwiliadau amlasiantaeth gyda themâu penodol yn ystod 25/26 yn ymwneud â'r Broses o Ddiogelu Plant. Bydd y pecyn gwaith archwilio'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Yr ydym yn cynnal dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant o ran materion ymarfer sydd wedi'u nodi ar draws yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn y rhanbarth, er mwyn i ni allu datblygu rhaglen hyfforddiant amlasiantaeth yn 25/26.

Enghraifft arall o'r gwaith a wnaed mewn perthynas ag ymarfer yw bod tîm diogelu BIPBC wedi gorfod atgoffa ymarferwyr Iechyd allweddol ynglŷn â phwysigrwydd caniatâd rhieni / prif ofalwr pan fydd plentyn yn mynd i apwyntiad Iechyd.

Disgwyliwn, mewn perthynas ag un o'r adolygiadau ymarfer, y bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â rheoli Pryderon Proffesiynol. Fel Bwrdd yr ydym yn cyfrannu at adolygiad Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar weithdrefnau Adran 5. Yn benodol, yr ydym wedi gofyn i'r gweithdrefnau gael eu hatgyfnerthu mewn perthynas ag addasrwydd unigolion i weithio gyda phlant.

3.2 Blaenoriaeth Strategol 2 – Ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol: Gwella ymgysylltu ac ymgynghori gyda phlant ac oedolion mewn perygl, grwpiau diamddiffyn, gweithwyr proffesiynol a phartneriaethau (BDGC).

Yn ystod cyfnod 24-25 mae BDGC wedi canolbwyntio ar ddatblygu adnoddau canllawiau i ategu gwell ymgysylltu â phlant ac oedolion sydd mewn perygl. Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn cynnal Archwiliadau Amlasiantaeth ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion / Plant yn rheolaidd.

Mewn achosion pan nad yw profiad bywyd yr oedolyn ar gael, efallai na chaiff ei flaenoriaethu neu efallai bydd lleisiau uwch teulu, ffrindiau neu weithwyr proffesiynol eraill yn ei guddio, er anfantais i ymdrechion i ddiogelu'r unigolyn. Mae BDGC wedi datblygu'r ddogfen ganllawiau. 🕮 Profiad Bywyd yr Oedolyn '. Datblygwyd y ddogfen hon er mwyn galluogi ymarferwyr i ystyried profiad yr oedolyn a sicrhau bod profiad bywyd yr oedolyn yn parhau yn rhan ganolog o unrhyw gamau gweithredu a gymerir i ddiogelu'r oedolyn mewn perygl.

Bydd y canllawiau ar gael i'r holl weithwyr proffesiynol (mae hyn yn cynnwys rheolwyr, staff a gwirfoddolwyr) sydd â chyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol (h.y. a allai fod yn gweithio gyda theuluoedd / gofalwyr) gydag oedolion mewn perygl; ac sydd â chyfrifoldebau dros ddiogelu a hybu eu lles.

Mewn perthynas â phrofiadau bywyd y plentyn, mae BDGC wedi datblygu adnoddau ychwanegol ochr yn ochr â'r canllawiau ymarfer, ⍰'Profiadau Bywyd y Plentyn'. 🕮 phrofiadau bywyd y plentyn

Mae BDGC hefyd wedi derbyn cyflwyniadau mewn perthynas ag ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn y rhanbarth.

Mae **Partneriaeth Atal Trais Gogledd Cymru** wedi cynnal arolwg ar-lein o bobl ifanc 11-25 mlwydd oed ynglŷn â'u canfyddiadau a phrofiadau o drais. Derbyniwyd 376 o ymatebion gyda chyfradd gwblhau o 67% (40 cwestiwn). Yr oedd y gyfradd gwblhau isaf ymysg rhai 18-25 mlwydd oed. Datgelodd yr arolwg ganfyddiadau, dealltwriaeth a phrofiadau o drais ymysg pobl ifanc.

<table>
<tr><th colspan="2">Beth mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl am drais?</th></tr>
<tr><td rowspan="4">

Teimlai bron i 3 o bob 4 plentyn neu unigolyn ifanc fod trais yn broblem yng ngogledd Cymru, ac mae llawer yn meddwl ei fod yn broblem yn eu sir, tref a mannau cyhoeddus hwy</td><td>Mae trais rhywiol yn flaenoriaeth allweddol i blant a phobl ifanc. Troseddau â chyllyll, trais gangiau ifanc, troseddau casineb, trais yn ymwneud â delio cyffuriau a bwlio yn yr ysgol ac ar-lein.</td></tr>
<tr><td>Mae dau draean o'r plant a phobl ifanc a ymatebodd wedi gweld gweithredoedd go iawn o drais ar y cyfryngau cymdeithasol, a chredant fod y cyfryngau cymdeithasol weithiau'n sbarduno gweithredoedd o drais, neu fe allant wneud hynny.</td></tr>
<tr><td>Pwysau gan gyfoedion oedd y prif ysgogiad y tu ôl i drais ymysg plant a phobl ifanc. Teimlai'r rhan fwyaf o'r plant a phobl ifanc y byddai mwy o heddlu a mwy o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc, fel clybiau ieuenctid, yn eu gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel.</td></tr>
<tr><td>Pwysau gan gyfoedion oedd y prif ysgogiad y tu ôl i drais ymysg plant a phobl ifanc.</td></tr>
<tr><td></td><td>Mae pobl yn cario arfau i deimlo'n fwy diogel ac i'w hamddiffyn eu hunain.</td></tr>
</table>

Mewn perthynas â gweithio gyda'r partneriaethau rhanbarthol eraill yn y rhanbarth, mae'r Bwrdd wedi derbyn diweddariadau gan Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel. Yr oedd dadansoddiad diweddar Heddlu Gogledd Cymru o anghenion yn amlygu'r tueddiadau allweddol canlynol ledled y rhanbarth:

- Mae'r gyfran o blant dan fygythiad a'r nifer o blant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu, sydd wedi arwain at lefelau cynyddol o rai sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, mae lefelau troseddau â chyllyll a'r defnydd o arfau wedi gostwng. Mae nifer y bobl 18 mlwydd oed ac iau sy'n mynd i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys gydag anafiadau o ganlyniad i ymosodiad wedi gostwng hefyd.
- Mae gwaharddiadau dros dro a pharhaol o addysg prif ffrwd wedi cynyddu yng ngogledd Cymru ers 2020, ac ymosodiad corfforol yw'r rheswm mwyaf cyffredin ond un dros wahardd.

Yn ogystal, digwyddiadau treisgar oedd bron i chwarter o'r holl ddigwyddiadau mewn siopau lleol a nodwyd gan HGC yn 2024. Mae trais wedi ei hwyluso gan dechnoleg mewn ysgolion ac ar-lein yn bryder arbennig.

- Mae nifer y plant y mae angen gofal arnynt wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar, yn arbennig yn Wrecsam, Ynys Môn a Gwynedd; yno mae'r cyfraddau uchaf o blant sy'n derbyn gofal yn lleol, ac maent ymysg yr awdurdodau lleol yng Nghymru lle mae cyfraddau gofal yn cynyddu.
- Nodir mai afiechyd meddwl rhieni yw'r ffactor mwyaf cyffredin yn ymwneud â rhieni ymysg plant sy'n derbyn gofal ledled gogledd Cymru, a dilynir hynny gan rieni'n camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig. Mae lefelau cam-drin domestig ac iechyd meddwl gwael rhieni yng ngogledd Cymru yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae amlder uwch y ffactorau hyn sy'n ymwneud â rhieni wedi arwain at niferoedd uwch o blant y mae angen gofal arnynt oherwydd esgeulustod neu gamdriniaeth.

Mae'r canfyddiadau uchod o gymorth i ddarparu gwybodaeth i weithlu ac is-grŵp hyfforddi BDGC ynglŷn â chomisiynu digwyddiadau hyfforddi a dysgu rhanbarthol i dargedu meysydd penodol.

3.3 Blaenoriaeth Strategol 3: Parhau i sicrhau dull cadarn, cryf a chyson o ran themâu sy'n codi ym maes diogelu.

Un o'r pethau y mae BDGC wedi bod yn canolbwyntio arnynt yn ystod y cyfnod hwn yw'r gwaith a wnaed gyda Phrifysgol Fetropolitan Manceinion i siapio, dylanwadu a datblygu fframwaith perfformiad diogelu ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl.

Cynhaliwyd gweithdy rhanbarthol gydag ymarferwyr a staff uned data perfformiad I edrych ar y math o wybodaeth am berfformiad y gall y Bwrdd gael mynediad ati.

Yn 25/26 bydd y Bwrdd yn adrodd am dempledi perfformiad sy'n dangos siwrnai plentyn / oedolyn mewn perygl.

Fel yr amlygwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad, oherwydd natur proffil uchel yr adolygiadau ymarfer yn y rhanbarth, mae'r Bwrdd wedi gorfod ymateb i'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Enghraifft o'r gwaith a wnaed mewn perthynas ag adolygu ymarfer yw bod tîm diogelu BIPBC wedi gorfod atgoffa ymarferwyr Iechyd allweddol ynglŷn â phwysigrwydd caniatâd rhieni / prif ofalwr pan fydd plentyn yn mynd i apwyntiad Iechyd.

Bu gofyn i'r Bwrdd ymgymryd â gwaith yn ymwneud â phryderon cynyddol ynglŷn ag Ideolegau Eithafol. Datblygwyd briff 7 munud ar Incels, a oedd yn amlygu'r heriau cynyddol yn y maes hwn.

4.0 Sut mae'r byrddau diogelu wedi cydweithio â phobl neu gyrff eraill sydd ynghlwm â gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amcanion y bwrdd?

Bwrdd Diamddiffynedd a Chamfanteisio Gogledd Cymru:

Cyflwynir adroddiadau ar y prif bwyntiau'n rheolaidd i'r Bwrdd Diamddiffynedd a Chamfanteisio mewn perthynas â themâu a materion trawsbynciol. Mae Cyd-gadeiryddion y bwrdd diogelu'n aelodau. Cynhelir cyfarfod ar y cyd yn flynyddol lle mae Cadeirydd y Bwrdd Diamddiffynedd a

Chamfanteisio'n cyflwyno ei adroddiad blynyddol ar y prif bwyntiau.

Byrddau Diogelu ar draws Cymru:

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â chydweithwyr o'r holl Fyrddau Diogelu yng Nghymru bob chwarter. Mae'r Rheolwyr Busnes yn cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth, adnoddau a dealltwriaeth yn rheolaidd.

Llywodraeth Cymru:

Mae cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cael eu cynnal gyda Chadeiryddion y Byrddau Diogelu bob ychydig fisoedd.

Cynhelir cyfarfodydd chwarterol gyda Rheolwyr Busnes y byrddau diogelu, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i drafod themâu a materion sy'n codi, a chynnydd ar ffrydiau gwaith cenedlaethol.

Swyddfa Crwner Gogledd Cymru:

Mae Cyd-gadeiryddion y Bwrdd ac aelodau'r Uned Fusnes yn mynychu cyfarfodydd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn gyda Chrwneriaid Gogledd Cymru, i drafod y prif faterion a themâu sy'n deillio o'r adolygiadau ymarfer ac unrhyw fater a amlygwyd yn y grwpiau cyflawni ymarfer sy'n cael eu cyfrif yn berthnasol i'r crwner.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC):

Mae'r Byrddau ac AGC yn cyfathrebu'n rheolaidd. Mae materion a themâu'n cael eu trafod, ynghyd â'r cynnydd o ran sut mae asiantaethau'n ymateb i'r Adolygiadau Brys sydd wedi'u cynnal, yn dilyn presenoldeb AGC ym Mwrdd Plant Gogledd Cymru i gyflwyno eu canfyddiadau.

Byrddau Diogelu Swydd Gaer a Gorllewin Swydd Gaer:

Mae'r cyfarfodydd yn cael eu trefnu a'u cynnal yn flynyddol. Mae'r Bwrdd wedi gwneud cais am ragor o ddiweddariadau gan Bartneriaeth Gorllewin Swydd Gaer ynglŷn ag Ymchwiliad Thirlwall.

Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru a Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru:

Mae nifer o aelodau'r Bwrdd Diogelu hefyd yn mynychu'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol a Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru. Mae rhagor o waith ar y cyd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r ffrydiau gwaith fel plant heb gwmni sy'n geiswyr lloches a allai fod yn gysylltiedig â diogelu.

5.0 Unrhyw geisiadau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wneud i bersonau cymwys dan adran 137(1) y Ddeddf ar gyfer gwybodaeth benodol, ac a gydymffurfiwyd yn unol â'r ceisiadau .

Nid yw unrhyw fwrdd wedi teimlo bod angen gwneud unrhyw geisiadau o dan adran 137(1) y ddeddf. Mae'r holl wybodaeth wedi'i chyflwyno fel rhan o fusnes arferol y bwrdd.

6.0 Cyflawniadau'r Bwrdd Diogelu yn ystod y flwyddyn.

6.1: Cwblhau a chyhoeddi protocolau, polisïau a chanllawiau:

Diogelu Plant a Phobl Ifanc a effeithir gan Oedolion sy'n edrych ar Ddeunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol:

Nod y canllaw yma yw amlinellu prosesau amddiffyn plant ar gyfer ymarferwyr a darparu canllawiau ymarfer i gynorthwyo ymarferwyr sydd yn gweithio â phlant a theuluoedd a effeithir arnynt gan oedolion sydd yn edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol - yn enwedig ar-lein, yn defnyddio dyfeisiau digidol.

Diogelu Plant ac Oedolion o amgylch Cŵn:

Prif nod y canllaw hwn yw diogelu plant ac oedolion ar draws gogledd Cymru rhag yr anafiadau difrifol y gall cŵn sydd wedi'u gwahardd, sy'n beryglus, neu sy'n cael eu rheoli'n wael, eu hachosi. Bwriad y canllaw hwn yw rhoi adnodd cyfeirio defnyddiol i unrhyw Ymarferwyr sydd yn gweithio'n agos gyda phlant, teuluoedd neu oedolion sydd mewn perygl.

Canllawiau Ymarfer Meddiannu Cartrefi Pobl Ddiamddiffyn i Werthu Cyffuriau:

Pwrpas y canllawiau hyn yw helpu i adnabod a chefnogi dioddefwyr cogio ('cuckooing' yn Saesneg). Nod y canllawiau yw rhoi fframwaith amlasiantaeth i weithwyr rheng flaen i hwyluso gweithio'n effeithiol gydag oedolion sydd mewn perygl o gael eu cartref wedi'i feddiannu i werthu cyffuriau.

Rhyngwynebu rhwng Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a'r Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru:

Mae Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Gogledd Cymru a Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gydweithio'n effeithiol. Nod y ddogfen hon yw:

a) Cefnogi cydweithredu a chydweithio, pan fo hynny'n synhwyrol ac yn ymarferol.
b) Sefydlu dull cyfathrebu cadarn a chlir rhwng y Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
c) Helpu i osgoi dyblygu diangen a sicrhau bod unrhyw wersi sy'n cael eu dysgu yn cael eu rhannu'n eang ar draws partneriaethau amlasiantaeth a phrosesau adolygu priodol.

Profiad Bywyd yr Oedolyn:

Mae'r canllaw yma er mwyn i bob gweithiwr proffesiynol sydd â chyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol gydag oedolion mewn perygl.

6.2: Wythnos Genedlaethol Diogelu 2024:

Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddi canlynol yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu 11-15 Tachwedd 2024.

Hyfforddiant Cadeirydd ac Adolygydd Panel SUSR: Hyfforddiant i wella sgiliau a chymhwysedd a magu hyder wrth ymgymryd â rôl yr Adolygydd neu Gadeirydd y Panel mewn Adolygiadau SUSR.

Diogelu Cymhleth:

Fe dynnodd gweithdy Nina Maxwell sylw at ganfyddiadau ymchwil a nodwyd o siarad â phobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio troseddol yng Nghymru, rhieni plant sydd wedi dioddef a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd mewn gwasanaethau awdurdod lleol a gwirfoddol ledled Cymru.

Hyfforddiant Amrywiaeth Ddiwylliannol ac Arferion Niweidiol - BAWSO:

Fe ganolbwyntiodd y gweithdy ar y ffordd y dylai unigolion a systemau ymateb yn barchus ac effeithiol i bobl o bob diwylliant, iaith, dosbarth, hil, cefndir ethnig, crefydd, a ffactorau amrywiaeth eraill.

Chwilfrydedd Proffesiynol:

Chwilfrydedd proffesiynol yw'r gallu a'r sgil i gyfathrebu er mwyn archwilio a deall beth sy'n digwydd o fewn teulu yn hytrach na thybio neu dderbyn pethau heb ymchwilio ymhellach. Cyfeiriodd y gweithdy at ddysgu o adolygiadau ymarfer a Chanllawiau Chwilfrydedd Proffesiynol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.

Ymgysylltu â Thadau:

Mae methiant i ymgysylltu gyda thadau a ffigurau tadol i'w weld mewn ymchwil ac adolygiadau achos ers degawdau. Fe gynhaliodd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru weithdy i ymarferwyr i gael gwell dealltwriaeth am ddysgu o adolygiadau ymarfer sy'n ymwneud ag ymgysylltu â thadau. Fe ddysgodd y rhai oedd yn bresennol hefyd argymhellion am arferion da i'w defnyddio wrth weithio gyda thadau/ffigurau tadol.

Hunan-esgeuluso, Celcio a'r Gyfraith:

Fe ystyriodd y sesiwn hon berthnasedd y Ddeddf Galluedd Meddyliol o ran gweithio gyda phobl sy'n hunan-esgeuluso a/neu'n celcio. Fe ystyriodd hefyd y gyfraith gyhoeddus berthnasol bwysig sydd wedi codi yn y Llys Gwarchod mewn perthynas â'r pwnc hwn, a'i berthnasedd i ymarferwyr.

Sesiwn Rheoli Troseddwyr Rhywiol neu Dreisgar gyda Heddlu Gogledd Cymru:

Sesiwn Fer ar Reoli Troseddwyr Rhywiol neu Dreisgar (MOSOVO) gyda Heddlu Gogledd Cymru.

Protocol Herbert:

Cynhaliwyd sesiwn fer er mwyn tynnu sylw at Brotocol Herbert: Mae'r fenter wedi ei henwi ar ôl George Herbert, cyn-filwr rhyfel y glaniad Normandi, a oedd yn byw gyda dementia. Bu farw tra'i fod 'ar goll', yn ceisio dod o hyd i'w gartref pan yn blentyn.

Gweithdy Hunan-esgeulustod:

Gweithdy a gynhaliwyd gan yr Athro Michael Preston Shoot i drafod y rhwystrau a ddaw i'r amlwg mewn achosion o hunan-esgeulustod.

Niwed Gamblo a'i effeithiau ar Ferched

Sesiwn PowerPoint rhyngweithiol un awr o hyd sy'n edrych ar beth yw gamblo? Y niwed sy'n gysylltiedig ag o, yn benodol mewn perthynas â merched, sut mae gamblo wedi esblygu, cipolwg ar gamblo ar-lein, mythau, ffeithiau a stigma. Cloi gyda chefnogaeth a chyfeiriadau.

Tueddiadau cyffuriau yng ngogledd Cymru a goblygiadau o ran diogelu:

Gweithdy a fu'n trafod y tueddiadau cyfredol yng ngogledd Cymru a pha effaith maen nhw'n ei gael ar y rhanbarth.

Hyfforddiant Aelodau'r Panel SUSR:

Gweithdy i wella sgiliau a chymhwysedd a magu hyder wrth ymgymryd â rôl Aelod y Panel mewn Adolygiadau SUSR.

7.0 I ba raddau cyfrannodd pob aelod y Bwrdd Diogelu at effeithiolrwydd y Bwrdd.

7.1 Presenoldeb y Bwrdd a Sesiwn Datblygu Busnes:

Trafodwyd presenoldeb ar y Bwrdd yn y Sesiwn Datblygu Busnes a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2025. Nodwyd bod diffyg presenoldeb rhai asiantaethau ar y Bwrdd, ac fe drafodwyd hyn yn dilyn y sesiwn. Diweddarwyd Cofrestr Risg Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i adlewyrchu'r risgiau presennol.

Trafodwyd blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod cyn cyhoeddi Cynllun Busnes Blynyddol y Bwrdd ynghyd â chytuno ar y gyllideb a lefel cyfraniadau partner. Hefyd trafodwyd cynllun gweithredu SUSR ar gyfer Gogledd Cymru a'r posibilrwydd o ailstrwythuro'r bwrdd.





7.2 Presenoldeb Grŵp Adolygu Achos:





7.3 Cyfraniad Gwaith Asiantaethau Partner:

Mae'r graffeg isod yn dangos cyfraniadau pob asiantaeth at waith y Byrddau. Mae'r manylion yn cynnwys presenoldeb ar ran y Bwrdd mewn perthynas â darnau cenedlaethol o waith, trefniadau Cadeirydd is-grwpiau a chyfraniadau i Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant naill ai fel Cadeirydd Panel neu Adolygwr.





7.4 Cadeiryddion Is-grŵp:



7.5 Heriau mewn perthynas ag Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion / Adolygiad Diogelu Unedig Sengl:

Yn y diwrnod Datblygu Busnes, fe dynnodd yr Uned Fusnes sylw at yr heriau yr oedd BDGC wedi'u hwynebu yn ystod y flwyddyn.

Effaith ariannol:

Yn sgil yr angen i sicrhau annibyniaeth adolygwyr, bu'n rhaid i'r Bwrdd gomisiynu adolygwyr ar gyfer nifer o adolygiadau. Mae comisiynu adolygwyr wedi cael effaith sylweddol ar gronfeydd wrth gefn y Bwrdd.



Uned Fusnes:

Bu'n rhaid i'r Uned Fusnes ganolbwyntio gwaith cefnogaeth weinyddol yr uned ar un adolygiad. Mae'r Cydlynydd Busnes hefyd wedi clustnodi amser sylweddol i uno holl gronoleg ynghyd ar gyfer yr adolygiad.

8.0 Asesiad o sut ddefnyddiodd y Bwrdd Diogelu ei adnoddau i arfer ei swyddogaethau neu gyflawni ei ganlyniadau.

8.1 Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion / Plant:

O ran adolygiad thematig BDAC o Adolygiadau Ymarfer Plant, cwblhaodd BDGC gynllun gweithredu dechreuol.

Camau Gweithredu a Nodwyd	**Ymateb BDGC**
Diffyg cofnodion clir o ran yr hyn oedd yn bwysig i'r unigolyn mewn cynlluniau cymorth. Diffyg ystyriaeth o ran cyd-destun cymdeithasol ac amgylcheddol i oedolion mewn perygl, gan gynnwys cynnwys teuluoedd a gofalwyr yn briodol, yn ogystal ag effaith amgylcheddau penodol gan gynnwys lle mae oedolion mewn perygl yn byw. Diffyg gwasanaethau eiriolaeth, neu oedi wrth eu darparu.	O ran dogfennau, mae gwaith wedi'i wneud ar draws y chwe awdurdod i sicrhau bod y dogfennau yn cyfeirio at y cwestiynau Beth sy'n Bwysig. Rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud mwy o waith o ran y cyd-destun cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer yr Oedolion mewn Perygl. Mae BDGC yn datblygu ei hyfforddiant diogelu amlasiantaeth lefel C. Mae gwaith ymgysylltu wedi'i wneud gyda Gwasanaethau Eiriolaeth Rhanbarthol. Mae canolbwynt wedi bod ar sicrhau atgyfeiriad at wasanaethau eiriolaeth ar ddechrau'r Broses Oedolyn mewn Perygl. Yn benodol, rydym wedi hyrwyddo'r defnydd o eiriolwyr ar gyfer achosion hunan-esgeulustod.
Cyfathrebu anghyson. Diffyg atebolrwydd, cydlyniad ac olrhain achosion. Diffyg cofnodion o ran rhesymeg dros benderfyniadau diogelu. Diffyg chwilfrydedd proffesiynol ac anghysonder wrth uwchgyfeirio pryderon at dimau diogelu.	Mae gwaith wedi cael ei wneud ar draws y rhanbarth o ran gweithio'n agosach gyda Heddlu Gogledd Cymru a BIPBC i wella cyfathrebu. Rydym wedi gweithio gyda PBC o ran cam ymholiadau y broses Oedolion mewn Perygl. Byddwn yn mynd i'r afael â'r dysg o'r adolygiad thematig yn yr hyfforddiant lefel C fydd yn canolbwyntio ar atebolrwydd a rhesymeg dros benderfyniadau diogelu. Mae BDGC wedi gweithio gyda Bwrdd Diogelu Oedolion Norfolk o ran Chwilfrydedd

	Proffesiynol. Cynhaliwyd gweithdai ar draws y rhanbarth. Gweler y ddogfen ganllaw sydd ynghlwm (chwilfrydedd proffesiynol)
Diffyg cynnig Eiriolaeth. Lle cynigiwyd eiriolaeth, ni chafodd ei chynnig eilwaith. Datgysylltiad rhwng y gefnogaeth yr oedd oedolion a'u teuluoedd yn teimlo oedd yn bwysig iddyn nhw, a'r gefnogaeth a gafodd ei chynnig neu ei blaenoriaethu.	Fel rhan o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd, mae gwaith wedi'i wneud ar draws y rhanbarth o ran ymgysylltu â Gwasanaethau Eiriolaeth. Mae archwiliadau a gynhaliwyd yn ystyried ymgysylltu gydag Eiriolwr. Rydym wedi nodi achosion lle mae angen gwneud mwy o waith o ran yr angen i ystyried cynnig eiriolwr ar gamau allweddol pan fo'r unigolyn wedi gwrthod i ddechrau.
Diffyg tystiolaeth a gwneud penderfyniadau wrth gynnal asesiad galluedd meddyliol ffurfiol. Diffyg dealltwriaeth o alluedd anwadal. Diffyg hyfforddiant o ran prosesau galluedd meddyliol.	Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Bwrdd wedi comisiynu hyfforddiant o ran y broses Galluedd Meddyliol. Mae'r gweithdai yn cynnwys: Hunan-esgeulustod, Celcio a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol – Dr Laura Pritchard Jones Galluedd Anwadal yng Nghyd-destun Deddf Galluedd Meddyliol 2005 - Dr Laura Pritchard Jones Paratoi ar gyfer Trefniadau Amddiffyn Rhyddid: Neil Allen (Essex Chambers) Cynnal a chofnodi asesiadau galluedd – Neil Allen (Essex Chambers) Yn ogystal, rydym wedi datblygu briffiau saith munud o ran Galluedd Meddyliol
Diffyg argymhellion clir, cyflawnadwy Diffyg eglurder o ran perchnogaeth cam gweithredu Diffyg terfynau amser clir ar gyfer cwblhau.	Cynhelir trafodaeth gyda'r is-grŵp Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant Diogelu i edrych ar ddatblygu hyfforddiant am gynlluniau gweithredu CAMPUS.

Ariannu ICON

Yn dilyn marwolaeth babi yn Sir y Fflint oherwydd trawma pen camdriniol ac argymhellion o Adolygiad Ymarfer Plant dilynol, cynhaliwyd archwiliad cynhwysfawr o pa wybodaeth 'Ymdopi â Chrio' oedd yn cael ei darparu i rieni gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd a staff newyddenedigol.

Cyn yr archwiliad cynigwyd fideo'r NSPCC 'Coping with Crying' i rieni ei gwylio a dosbarthwyd taflen 'Handle with Care' yr NSPCC.

Nid yw fideo'r NSPCC ar gael mwyach, ond mae fideo Llywodraeth Cymru, 'Ymdopi â Babi sy'n Crio', ar gael. Nid yw'r fideo hon yn dangos y neges am drin yn ddiogel a'r risg y bydd babanod yn cael anaf pen nad yw'n ddamweiniol. Mae staff yn amharod i ddefnyddio rhywbeth nad yw'n cydymffurfio â negeseuon eraill Iechyd y Cyhoedd.

Ym mis Tachwedd, cafodd BDGC gyflwyniad manwl gan dîm diogelu BIPBC, a oedd yn amlygu'r themâu presennol sy'n cael eu nodi mewn adolygiadau ymarfer yng ngogledd Cymru ond hefyd ar draws Cymru a Lloegr.

Y cynnig a gyflwynwyd gan Dîm Diogelu BIPBC oedd fod BDGC yn ariannu gweithredu ICON yng ngogledd Cymru.

Rhaglen sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw ICON, sy'n cynnwys cyfres o ymyriadau byr sy'n atgyfnerthu'r negeseuon syml y mae ICON yn seiliedig arnynt.

- Mae crio babanod yn normal a bydd yn dod i ben.
- Weithiau gall dulliau cysuro leddfu'r babi a bydd y crio yn peidio.
- Mae'n iawn cerdded i ffwrdd os ydych chi wedi gwneud yn siŵr bod y babi'n ddiogel a bod y crio yn eich llorio.
- Peidiwch byth ag ysgwyd neu frifo eich babi.

Mae BDGC wedi cytuno i ariannu ICON. Mae grŵp llywio wedi'i sefydlu â'r nod o lansio ICON yn ystod wythnos diogelu 2025.

8.2 Hyfforddiant a Sesiynau Codi Ymwybyddiaeth:

Yn ystod 24/25, cydlynodd BDGC seminarau briffio ar-lein mewn partneriaeth â'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Roedd y ddau weithdy briffio a gynhaliwyd yn canolbwyntio ar ganfyddiadau o'r adroddiad a gomisiynwyd gan y Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant yn Lloegr i archwilio'r heriau o ran adnabod, asesu ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol o fewn amgylchedd y teulu.

Mae BDGC yn parhau i ariannu'r hyfforddiant Adran 47 Amlasiantaeth ar draws y rhanbarth. Mae'r hyfforddiant tridiau wedi'i dargedu at Ymarferwyr Grŵp C. Cynhaliwyd tri digwyddiad yn 24/25.

Mae'n cynnwys y meysydd canlynol:

- Trosolwg o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rhyngweithio â diogelu
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant
- Cydweithio gyda'r Heddlu
- Camau ynghlwm wrth gynnal ymchwiliad ar y cyd
- Gwahaniaethau rhwng swyddogaethau'r Adran Gwasanaeth Cymdeithasol a'r Heddlu mewn ymchwiliadau a47
- Arferion gwaith a phrosesau ar gyfer ymchwiliadau ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol/ Heddlu
- Goblygiadau'r gofyniad i ddatgelu tystiolaeth
- Pwerau Diogelu'r Heddlu
- Archwilio astudiaeth achos sy'n amlinellu'r broses a47 rhwng yr Heddlu a'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cydweithio gydag Iechyd
- Datblygiad plentyn ac effaith camdriniaeth
- Gwahaniaethau rhwng swyddogaethau'r Adran Gwasanaeth Cymdeithasol a'r Heddlu mewn ymchwiliadau a47
- Tystiolaeth feddygol

- Arwyddion nad yw anafiadau/ marciau yn ddamweiniol
- Proses archwilio meddygol y paediatregydd
- Swyddogaeth yr Heddlu a Gweithwyr Cymdeithasol yn ystod y prawf meddygol amddiffyn plant
- Trefnu prawf meddygol yn ystod a'r tu allan i oriau gwaith
- Cydsyniad a Phrofion Meddygol Amddiffyn Plant.

Mae gwaith wedi'i wneud yn ystod 24/25 ar ddatblygu rhaglen hyfforddiant Diogelu Oedolion amlasiantaeth.

Bydd yr hyfforddiant yn cael ei lansio yn 25/26 a bydd yn trafod y meysydd canlynol:

- Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol mewn perthynas â diogelu
- Sut i weithio mewn modd sy'n diogelu pobl rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- Y ffactorau, y sefyllfaoedd a'r gweithredoedd a allai arwain neu gyfrannu at gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- Sut i adrodd, ymateb i a chofnodi pryderon, datgeliadau neu honiadau cysylltiedig â diogelu
- Hyrwyddo ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Cymryd rhan mewn prosesau diogelu
- Gweithio gydag eraill i ddiogelu pobl
- Cynnal atebolrwydd proffesiynol
- Safonau sy'n benodol i ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau sylweddol i oedolion.

8.3 Gwefan BDGC:

Mae'r Uned Fusnes wedi parhau i wneud gwaith ar y wefan.
Datblygwyd y briffiau saith munud canlynol yn ystod 24/25:

- Dysg am gydymffurfiaeth gudd o adolygiadau achos.
- Ymwybyddiaeth PICA.
- Ideolegau Eithafol: Incels.
- Gweithio gyda theuluoedd lle mae'r rhieni wedi gwahanu.
- Gweithio gyda rhai sy'n byw bywydau ar y stryd.
- Diwylliant Caeëdig.
- Arfer Gorau – Briwiau Pwyso.
- Crynodeb o'r Adolygiad Cenedlaethol o Gam-drin Plant yn Rhywiol yn amgylchedd y teulu.

Website Reports:



Chwiliad Google organig

GOOGLE ORGANIG	GOOGLE ORGANIC
North Wales Safeguarding	1.3K
11 Arwydd Rhybudd o Chwarae Triciau Meddyliol	193
10 Enghraifft o Chwarae Triciau Meddyliol	97
Arwyddion o Chwarae triciau Meddyliol	82
11 arwydd rhybuddio o ...	80
protocol Herbert Cymru	70
chwarae triciau meddyliol arwyddion	56

Golygfeydd yn ôl teitl y dudalen a dosbarth y sgrin

TEITL A SGRIN Y DUDALEN	SYLWADAU
Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru	16K
Ynglŷn â'r Bwrdd Plant	3.4K
Digwyddiadau a Hyfforddiant - Gogledd Cymru -	2.4K
Ynglŷn â Diogelu Gogledd Cymru	2.3K
Adrodd pryderon - Gogledd	2.3K
Newyddion diweddaraf - Gogledd	2.2K
Briff 7 Munud - Gogledd	2.1K

9.0 Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r Byrddau Diogelu yn arfer eu swyddogaethau fel y ddengys mewn dadansoddiad o achosion y mae wedi delio â hwy, ac unrhyw newidiadau y mae wedi ei roi ar waith o ganlyniad.

9.1 Diogelu Oedolion:

Adroddiadau Diogelu 2024 / 25 a'r categorïau cam-drin a adroddwyd:



Bu cynnydd yn nifer yr adroddiadau o gam-drin ariannol, ond esgeulustod a cham-drin emosiynol yw'r categorïau cam-drin mwyaf cyffredin sy'n cael eu hadrodd o hyd.

Mae hunan-esgeulustod a chelcio yn cael eu hadrodd yn rheolaidd drwy adroddiadau oedolion mewn perygl, yn aml heb fawr o wybodaeth gan yr asiantaeth sy'n adrodd. Nid oes llawer o ddealltwriaeth o Brotocol Hunan-esgeulustod a Chelcio, ac ychydig iawn neu dim

tystiolaeth bod asiantaethau yn defnyddio asesiadau risg yn rhagweithiol, neu'n defnyddio'r rôl asiantaeth arweiniol fel y nodwyd yn y protocolau hyn.

Mae'r ymarfer presennol yn golygu bod yr awdurdod lleol yn derbyn cyfrifoldeb arweiniol am yr holl bryderon hunan-esgeulustod a chelcio.

9.2 Adroddiadau Adran 5:



Mewn perthynas ag Adran 5 - adroddiadau Unigolion Mewn Safle o Ymddiriedaeth; mae'r rhanbarth wedi parhau i weld cynnydd yn y nifer o bobl mewn safle o ymddiriedaeth yn cael eu cyfeirio at yr awdurdod lleol i gael eu hystyried dan Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.

Mae pryderon ynghylch pobl yn esgeuluso unigolion neu arddangos arferion amhroffesiynol yn y tueddiad hwn yn bryderus.

Rydym hefyd yn cydnabod yr heriau y mae'r pryderon hyn yn eu codi i gyflogwyr- nid yw rhai cyflogwyr yn gyfarwydd â phroses adran 5. Mae angen gweithio i ddatblygu dealltwriaeth cyflogwyr o'r adran hon yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn yn cael ei arddangos gan nifer o adroddiadau sy'n cael eu dychwelyd i SPoA, dan rhai amgylchiadau megis yn Sir Ddinbych, mae dros 50% o'r adroddiadau'n cael eu derbyn.

9.3 Diogelu Plant:

Nifer Y Gofrestr Amddiffyn Plant:



Y categori â'r nifer uchaf o gofnodion ar gyfer plant ar y gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod 2024 / 25 yw emosiynol, gyda cham-drin corfforol ac emosiynol i ddilyn, ac esgeulustod.

9.4 Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC):



10.0 Y nifer o orchmynion amddiffyn oedolion a chefnogi a ddefnyddiwyd yn ardal y Bwrdd Diogelu.

Ni wnaed cais am unrhyw Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn Rhanbarth Gogledd Cymru rhwng Ebrill 2024 a diwedd Mawrth 2025.

11.0 Pryd a sut oedd plant neu oedolion yn arfer cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu.

Yn yr adroddiad, rydym ni wedi amlygu gwaith ymgynghori sydd wedi'i wneud ar draws y rhanbarth. Un maes lle'r ydym ni wedi gweld ymgysylltu â'r Bwrdd yw materion yn ymwneud â chwynion sydd wedi'u derbyn gan BDGC.

11.1 Oedolion

Mewn perthynas ag Adran 5, deliwyd â phedair cwyn yn ymwneud â chynadleddau yn ystod 2024/25. Mae'n bwysig nodi bod apeliadau yn canolbwyntio ar a yw'r broses briodol wedi'i dilyn.

Awdurdod Lleol	Dyddiad	Canlyniad	O fewn y terfyn amser	Ffocws y gŵyn	Adolygwyr
Conwy	Gorffennaf 2024	Heb ei chadarnhau	Oedd	Achwynydd wedi gofyn am adolygiad o'r broses	CBSW / HGC
Cyngor Gwynedd	Hydref 2024	Heb ei chadarnhau	Oedd	Achwynydd wedi gofyn am adolygiad o'r broses	CSDd / Ynys Môn
Sir Ddinbych	Hydref 2024	Heb ei chadarnhau	Oedd	Achwynydd wedi gofyn am adolygiad o'r broses	Conwy / HGC
Cyngor Gwynedd	Tachwedd 2024	Heb ei chadarnhau	Nac oedd	Achwynydd wedi gofyn am adolygiad o'r broses	CBSW / HGC

11.2 Plant

Mewn perthynas ag apeliadau cynadleddau diogelu plant, deliwyd â thair Cwyn Cynhadledd Diogelu Plant yn ystod 2024/25.

Awdurdod Lleol	Dyddiad	Canlyniad	O fewn y terfyn amser	Ffocws y gŵyn	Cadeirydd	Panel
Sir Ddinbych	Mawrth 2025	Heb ei chadarnhau	Nac oedd	Teimlodd yr achwynydd fod gwybodaeth ychwanegol wedi'i rhannu ar gam olaf y gynhadledd a ddylanwadodd ar weithwyr proffesiynol eraill wrth iddynt ystyried a oedd y trothwy wedi'i gyrraedd i roi ei blentyn ar y gofrestr diogelu plant.	CBSW	CBSW
Wrecsam	Awst 2024	Heb ei chadarnhau	Nac oedd	Gwnaeth yr achwynydd hi'n glir cyn y gynhadledd diogelu plant y byddai'n herio ac yn apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i lunio cynllun gofal a chefnogaeth ar gyfer ei blentyn. Ailadroddwyd hyn drwy gydol Cyfarfod Datrys Anffurfiol Cam 1.	HGC	BIPBC
Wrecsam	Tachwedd 2024	Heb ei chadarnhau	Nac oedd	Teimlodd yr achwynydd nad oedd tystiolaeth o niwed a risg i'r plentyn a bod y cofrestriad yn amhriodol.	HGC	BIPBC / HGC

12.0 Unrhyw wybodaeth neu addysg mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wasgaru, neu hyfforddiant y mae wedi ei argymell neu ei ddarparu.

12.1 Adolygiad Diogelu Unedig Sengl:

Fis Ebrill 2024 darparwyd yr hyfforddiant ADUS cenedlaethol a ddatblygwyd gan Fwrdd Diogelu Canolbarth Cymru ar ran y Tîm ADUS i reolwyr ar draws y rhanbarth. Yna, sicrhaodd yr Uned Fusnes fod holl ganllawiau a dogfennau ychwanegol yr ADUS cenedlaethol ar gael ar y wefan.

Mae newyddlen yr ADUS hefyd ar gael ar wefan y Bwrdd.

12.2 Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol

Mae aelodau Is-grŵp Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant Diogelu yn rhan o grŵp llywio cenedlaethol wedi'i hwyluso gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Cynhaliodd y rhanbarth gynhadledd hyfforddiant Grŵp B Gofal Cymdeithasol Cymru, gyda thros 65 o ymarferwyr aml-asiantaeth yn bresennol.

12.3 Dysgu o Adolygiadau Ymarfer

Ymhob cyfarfod grŵp adolygu achos ADUS, caiff adolygiadau ymarfer sydd wedi'u cyhoeddi gan ranbarthau eraill eu rhannu a'u hystyried yn ystod yr adolygiad.

O ran adolygiadau achos wedi'u cyhoeddi gan Ogledd Cymru, mae'r Uned Fusnes yn datblygu briffiau 7 munud a gaiff eu cylchredeg i ymarferwyr ar draws y rhanbarth. Yn ogystal, cynhelir gweithdai i ymarferwyr ar themâu allweddol a amlygir mewn adolygiadau.

Bydd adolygiad achos ADUS hefyd yn monitro'r holl argymhellion a wneir yn yr adolygiadau ymarfer. Bydd unrhyw fater yn ymwneud â gweithredu ar yr argymhellion yn cael ei uwchgyfeirio at y Bwrdd.

12.4 Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn

Mae'r Bwrdd wedi sicrhau bod y cynllun gweithredu yn cael ei drafod gan y Bwrdd a'i gylchredeg i'r is-grwpiau perthnasol. Rydym ni wedi cyfrannu at waith canllaw ymarfer Hunan-Esgeuluso Cymru Gyfan.

12.5 Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Mae'r Bwrdd wedi cyfrannu at y gwaith cenedlaethol parhaus sy'n cael ei wneud i ddatblygu'r ail gynllun gweithredu cenedlaethol. Y grŵp cyflawni plant rhanbarthol fydd is-grŵp allweddol y Bwrdd a fydd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun gweithredu.

12.6 Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru

Yn ystod y flwyddyn mae BDGC wedi ymateb i bob cais/ymgynghoriad gan Uned Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru.

13.0 Sut mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw ganllaw neu gyngor a roddir gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol.

Mewn perthynas â'r Bwrdd Cenedlaethol, mae'r BDGC wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Fetropolitan Manceinion mewn perthynas â datblygu fframwaith perfformiad ar gyfer grwpiau cyflawni Oedolion a Phlant.

Bydd y fframwaith perfformiad yn cael ei lansio yn 25/26 a bydd yn cael ei adrodd i'r prif fwrdd.

14.0 Materion eraill yn berthnasol i waith y Byrddau Diogelu.

14.1 Themâu sy'n dod i'r amlwg

Trais mewn Ysgolion:

Mae Adolescence yn adrodd hanes bywyd teulu sy'n newid am byth pan mae Jamie Miller, sy'n 13 oed, yn cael ei arestio am lofruddiaeth merch yn ei harddegau sy'n mynychu'r un ysgol. Mae'r gyfres bedair rhan hon ar Netflix yn cynnwys themâu fel diwylliant incel, casineb at ferched a'r ffordd y mae merched yn cael eu trin.

Mewn ymateb i effaith y gyfres deledu hon, mae BDGC wedi datblygu briff 7 munud i godi ymwybyddiaeth o'r pryderon am dwf y diwylliant incel. Bydd BDGC yn gofyn am ddiweddariadau gan Arweinwyr Diogelu ym maes Addysg mewn perthynas ag unrhyw ymwneud â'r Derminoleg sy'n Gysylltiedig â'r Manosphere, Incels, Goruchafiaeth Wrywaidd themâu sy'n codi yn y maes ymarfer hwn. Bydd y Bwrdd hefyd yn datblygu Cerdyn-Z yn a Gwrth-ffeministiaeth.





Pwysau Ariannol ar Wasanaethau Diogelu

Mae'r Bwrdd yn diweddaru ei Gofrestr Risg mewn perthynas â'r pwysau cyfredol ar yr holl wasanaethau. O ran y diwylliant ariannol, rydym wedi gweld cynnydd mewn gwariant mewn perthynas ag adnoddau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Bu i'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y grwpiau Cyflawni Lleol dynnu sylw at y ffaith mai salwch meddwl rhieni oedd yn cael ei nodi fel y ffactor mwyaf cyffredin yn ymwneud â rhieni ymysg plant sy'n derbyn gofal ar draws Gogledd Cymru (cyfartaledd 46.5%) wedi'i ddilyn yn agos gan rieni'n camddefnyddio sylweddau (42.8%) a cham-drin domestig (39%).

Roedd cam-drin domestig yn uwch yng Ngogledd Cymru na chyfartaledd Cymru (32%), roedd hyn yn wir am iechyd meddwl rhieni hefyd (cyfartaledd Cymru: 45%). Roedd Ynys Môn yn uchel ar draws pob un o'r 3 ffactor. Roedd gan Wynedd hefyd lefelau uchel o salwch meddwl rhieni a rhieni'n camddefnyddio sylweddau. Roedd gan Sir Ddinbych mwy na dwbl y cyfartaledd o anableddau dysgu ymysg rhieni. Y ffactorau amlycaf yma yw tlodi a diweithdra fel sy'n cael ei nodi uchod.

Mewn perthynas ag Is-grŵp Hyfforddiant Diogelu a Datblygu'r Gweithlu, yn 25/26 bydd pwyslais ar ddarparu cyfleoedd i staff sy'n gweithio gyda rhieni â salwch meddwl ac i barhau i hyrwyddo cydymffurfiaeth yn ymwneud â'r canllawiau ymarfer Cefnogi Rhieni gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol a/neu broblemau camddefnyddio sylweddau.

Problemau Recriwtio:

Yn yr Is-grŵp Hyfforddiant Diogelu a Datblygu'r Gweithlu, cynhelir trafodaethau am faterion staffio / recriwtio ar gyfer y rhanbarth. Bu i gynrychiolydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn yr is-grŵp ddarparu trosolwg yn ymwneud â defnyddio staff asiantaeth yng Nghymru. Yng Ngogledd Cymru yn benodol, gallwn weld yn nwyrain y rhanbarth (Awdurdodau Lleol

Wrecsam a Sir y Fflint) y pwysau presennol yn ymwneud â recriwtio staff parhaol i swyddi diogelu rheng-flaen.

Un o'r meysydd y gall y BDGC ei gefnogi yw sicrhau bod gan staff sydd newydd gymhwyso fynediad at Hyfforddiant Aml-asiantaeth Oedolion a Phlant Grŵp C.

15.0 Enghraifft Arfer Da:

Astudiaeth Achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Achosion unigol lle gallwn ddangos newid / gwell canlyniadau:

Er bod yna nifer o achosion lle gall y Tîm Diogelu Oedolion ddangos gwell canlyniadau ar gyfer y dinesydd, mae un achos yn benodol yn dod i'r amlwg fel enghraifft o arfer eithriadol o dda:

Drwy gydweithio cadarn, llwyddodd y Tîm Diogelu Oedolion i gael sgyrsiau cynnar gyda'n cydweithwyr yn y Tîm Ymateb Cynnar a chynnig y wybodaeth a'r arweiniad angenrheidiol, gan helpu adnabod yr angen i roi'r protocol hunan-esgeulustod ar waith, a sicrhau'r un pryd bod llais, dewis a rheolaeth y dinesydd yn hollbwysig. Drwy gydweithrediad amlddisgyblaethol, cydweithio'n dda rhwng asiantaethau a phrosesau rhannu gwybodaeth cadarn, cefnogwyd y dinesydd yn llwyddiannus gan sicrhau y cyflawnwyd yr hyn oedd yn bwysig iddyn nhw.

Datblygu model gwasanaeth/ymarfer o fewn yr ardal sydd wedi arwain at well canlyniadau:

a) Cynhaliwyd ymgynghoriad a chyrhaeddwyd cytundeb a arweiniodd at ddatblygu ffurflenni diwygiedig ar gyfer Asesiadau Galluedd Meddyliol, Cyfarfodydd Lles Pennaf a Thaflenni Cydbwyso'r Lles Pennaf. Mae hyn wedi sicrhau cydymffurfiad â'r fframwaith cyfreithiol, ac mae'n cydweddu ac yn cynnig cysondeb o ran defnydd ac ymarfer ar draws yr holl dimau gofal cymdeithasol i oedolion.

b) Mae Diogelu Oedolion Wrecsam wedi arwain ar ddatblygu Hyfforddiant Preswylfa Arferol ac wedi cydweithredu ledled gogledd Cymru drwy gynnig rhannu'r cyfle dysgu hwn. Datblygwyd yr hyfforddiant i fynd i'r afael â'r ffordd yr ymdrinnir ag anghydfodau rhwng awdurdodau ynglŷn â phreswylfa arferol unigolyn a chludadwyedd gofal a chymorth.

c) Cymryd rhan weithgar yn natblygiad gweithdrefnau Adran 5, a fydd yn cydweddu'n ffurfiol ag ymarfer gogledd Cymru mewn perthynas â honiadau a wneir yn erbyn Unigolyn mewn Swydd Gyfrifol.

d) Mabwysiadu amserlenni 'Arferion Gorau' mewn ymateb i ymholiadau Adran 5, sy'n cael eu monitro'n rheolaidd a'u defnyddio'n fewnol i fesur canlyniadau prydlon i'r dinesydd.

e) Mae'r gwaith cofnodi a phrosesu mewn perthynas ag ymchwiliadau diogelu sy'n cynnwys achos troseddol wedi'i atgyfnerthu, gan ei gwneud yn bosib monitro pob achos o'r fath yn rheolaidd gyda rhybudd wedi'i wreiddio o fewn system TG gofal cymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau y caiff achosion fel hyn eu monitro fel mater o drefn, gan geisio'r newyddion diweddaraf gan Heddlu Gogledd Cymru, nes bydd yr achos troseddol wedi dod i ben.

Ymateb i'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer:

Mae Diogelu Oedolion wedi atgyfnerthu eu prosesau lle mae angen hysbysu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dilyn canlyniad ymchwiliad Adran 5 (Unigolyn mewn Swydd Gyfrifol). Mae hyn yn cynnwys hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n llunio rhan o gofnod y dinesydd. Er y gellir neilltuo'r gwaith o hysbysu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i asiantaeth bartner, mae'r Tîm Diogelu Oedolion yn sicrhau y gwneir nodyn ffurfiol o'r cam hwn a'i storio fel rhan o ganlyniad yr ymchwiliad a ffeil achos y dinesydd. Mae preswylfa arferol yn gysyniad allweddol wrth bennu pa awdurdod lleol sydd â dyletswydd i asesu a bodloni anghenion gofal a/neu gymorth unigolyn dan Rannau 3, 4 a 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd yr hyfforddiant hwn yn helpu i fynd i'r afael â chymhlethdodau anghydfodau dros breswylfa arferol ac yn y pen draw, yn gwella prydlondeb y canlyniadau i'r dinesydd.

Gwasanaethau Plant

Ymateb i'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer

Enghraifft 1

Ym mis Hydref 2024, cynhaliodd y Gwasanaethau Plant Weithdy Perfformiad, Ymarfer ac Ansawdd gyda rheolwyr tîm ar draws y gwasanaeth. Edrychwyd ar ddau adolygiad ymarfer plant o ogledd Cymru yn ystod y gweithdy:

AYP - NWSCB1 / 2021

AYP - NWSCB/1/2022

Rhoddwyd tasg i'r staff mewn grwpiau o ystyried yr argymhellion o'r adolygiadau ymarfer plant, gan adolygu'n benodol pa oblygiadau oedd ar gyfer ymarfer yn Wrecsam ac a allai staff nodi unrhyw argymhellion ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaeth ddifyr, ac fe wnaeth pob grŵp adrodd yn ôl i'r grŵp cyfan am eu barn a'u hargymhellion.

Enghraifft 2

Ym mis Medi 2024, cafodd Gwasanaethau Plant Wrecsam wybod am blentyn fis oed (Plentyn A) a oedd wedi cyrraedd Ysbyty Maelor Wrecsam ar ôl i'w rieni ddweud ei fod yn anymatebol a'i fod yn taflu i fyny. Roedd can Blentyn A glais bach ar ei fraich a'i ddwylo hefyd ac roedd canhwyllau ei lygaid yn peri pryder. Cafodd sgan CT a gadarnhaodd fod gan Blentyn A waedlif difrifol ar ei ymennydd, a dangosodd waedlif blaenorol hefyd. Cafodd sgan arall, a gwelwyd ffurfiant caled ar y 6ed a'r 7fed asen, a oedd yn arwydd o doriadau a oedd yn gwella.

Ar yr un diwrnod â'r atgyfeiriad, cysylltodd y Pediatregydd Ymgynghorol â'r Tîm Dyletswydd Argyfwng i ddweud bod amheuaeth gref nad anafiadau damweiniol oedd gan y plentyn, a theimlai bod angen goruchwylio'r plant i gyd.

Cynhaliwyd cyfarfod strategaeth arall rhwng iechyd, y Tîm Dyletswydd Argyfwng a'r Heddlu y noson honno. Cysylltwyd â'r Uwch Bennaeth Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant yn Wrecsam a gofynnwyd am weithredu Adran 76 ar gyfer dau sibling Plentyn A.

Ym mis Ionawr 2025, cynhaliodd Heddlu Gogledd Cymru sesiwn drafod strwythuredig er mwyn adolygu'r ymateb y tu allan i oriau swyddfa gan yr Heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Iechyd i'r anafiadau difrifol a gafodd Plentyn A. Yn y sesiwn hon, amlinellwyd nifer o argymhellion dysgu ar gyfer meysydd datblygu, yn ogystal â lle bu tystiolaeth o feysydd arfer da, a oedd yn cefnogi'r ymateb i'r atgyfeiriad.

Mae'r achos wedi'i atgyfeirio ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Y rheswm dros atgyfeirio'r achos ar gyfer Adolygiad yw oherwydd bod tystiolaeth o niwed corfforol i Blentyn A a oedd yn peryglu ei fywyd, ac nid yw'r effaith niwrolegol a chorfforol hirdymor yn hysbys ar hyn o bryd. Roedd gan Blentyn A anafiadau ychwanegol ar ei asennau a oedd yn dangos eu bod wedi digwydd ar amser gwahanol i'r gwaedlif a welwyd pan gafodd ei dderbyn i'r ysbyty. Nodwyd anafiadau pellach i goesau Plentyn A yn dilyn archwiliad ysgerbydol fel rhan o'r broses Amddiffyn Plant, a oedd yn dangos sawl achos o anafiadau nad oeddent yn ddamweiniol. Nid oedd Plentyn A yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol i Blant ar adeg yr atgyfeiriad. Roedd tystiolaeth yn y gronoleg o uwchgyfeirio achosion blaenorol o gam-drin domestig pan gafodd y siblingiaid hŷn eu geni. Ystyriwyd bod y Tad yn risg uchel hefyd ar ôl cynnal asesiad risg prawf. Roedd patrwm ailadroddus o gam-drin domestig a'r rhieni'n bychanu'r gamdriniaeth honno, gan ailgynnau eu perthynas yn dilyn digwyddiad sylweddol o gam-drin domestig, y bu'r plant ifanc yn dyst iddo.

Datblygiad model gwasanaeth / ymarfer o fewn eich ardal sydd wedi arwain at well canlyniadau

Yn ystod 2024/25, mae'r Tîm rhanbarthol Dyletswydd Argyfwng y Tu Allan i Oriau Swyddfa wedi cwblhau adolygiad o broses A47 ar gyfer achosion y tu allan i oriau swyddfa.

Roedd yr adolygiad hwn yn ceisio symleiddio'r dogfennau a'r prosesau presennol i sicrhau bod ymarferwyr yn cael canllawiau clir a chryno wrth atgyfnerthu eu hatebolrwydd.

Roedd yr adolygiad wedi'i sbarduno gan yr achos uchod (Plentyn A) yn ogystal â'r duedd o ran achosion mwy cymhleth ac amlochrog sy'n cael eu hatgyfeirio y tu allan i oriau swyddfa.

Mae ffurflen a dogfen lif newydd wedi'u datblygu trwy ymgynghoriad â Bruce Thornton. Mae'r ddogfen hon yn darparu strwythur ar gyfer ymateb cadarn, gyda phroses gwneud penderfyniadau y gellir ei hamddiffyn.

Cyngor Sir y Fflint
Tîm Diogelu

Tîm Oedolion mewn Perygl

Mae'r Tîm Oedolion Mewn Perygl yn dîm ymyrraeth byrdymor ond wrth weithio gyda gŵr 70 oed ag anghenion cymhleth, mae'r tîm wedi ymestyn eu cefnogaeth iddo o bryd i'w gilydd dros gyfnod o sawl blwyddyn. Oherwydd yr anghenion sy'n deillio o Anaf i'r Ymennydd, Alcoholiaeth, Anhwylder Obsesiynol Cymhellol, mae wedi cymryd y cyfnod hwn o amser i feithrin perthynas â'r unigolyn a all gael trafferth ymgysylltu ac o ganlyniad yn canslo apwyntiadau. Cydnabu'r tîm hyn a chaniatawyd amser i'r unigolyn feithrin

ymddiriedaeth ynddynt. Mae'r tîm wedi darparu cefnogaeth ymarferol o ran glanhau'r cartref yn drylwyr a chael mynediad at fudd-daliadau.

Drwy'r gefnogaeth hon mae'r unigolyn wedi dechrau ymddiried yn raddol mewn gweithwyr proffesiynol. Gydag anogaeth, mae wedi gwneud trefniadau i staff cefnogi ei helpu gyda thasgau allweddol fel glanhau a siopa bwyd. Mae wedi cymryd amser hir, ond mae'r gŵr bellach yn fodlon siarad â'r meddyg teulu ac ystyried dadwenwyno mewn perthynas â chaethiwed i alcohol, sy'n ei atal rhag cael y llawdriniaeth y mae ei angen ar y goden fustl.

Mae'r tîm, sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol oedolion mewn perygl a gweithwyr cefnogi, wedi gweithio mewn partneriaeth â'r meddyg teulu ac yn bwriadu cefnogi'r gŵr i gael mynediad at yr apwyntiad hanfodol hwn gyda'r meddyg teulu. Mae'n cymryd amser iddo addasu a bod yn barod i fynd i apwyntiad. Mae cynllun clir ar waith i ddiwallu'r anghenion brys, ac yna i symud ymlaen a mynd i'r afael â theimladau o arwahanrwydd cymdeithasol drwy fynychu grwpiau cymdeithasol. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r unigolyn wedi teimlo na allai ei wneud oherwydd Syndrom coluddyn llidus (IBS), sydd o bosib yn waeth oherwydd yr alcoholiaeth. Bwriedir cau'r tîm unwaith y bydd cefnogaeth berthnasol wedi'i sefydlu i sicrhau nad yw'r gŵr mewn perygl.

Tîm Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid

Enghraifft 1

Dyn 68 oed, gydag Anaf Trawmatig i'r Ymennydd, mewn cartref nyrsio lle'r oedd wedi byw am dros 2 flynedd. Lleoliad wedi'i drefnu a'i ariannu gan y GIG drwy Ofal Iechyd Parhaus. Roedd yr unigolyn yn gaeth i'w wely a byth yn gadael ei ystafell. Ymwelodd yr Asesydd Budd Pennaf i gasglu gwybodaeth ar gyfer Asesiad Budd Pennaf Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS).

Canfu'r Asesydd Budd Pennaf nifer o bryderon diogelu difrifol. Roedd y rhain yn cynnwys gwrthod meddyginiaeth, gwrthod gofal personol ac mewn cyflwr o esgeulustod, risg o niwmonia allsugno am nad oedd yn eistedd i fyny wrth fwyta, peidio â dilyn diet meddal yn ôl argymhellion dietegydd. Darganfu'r Asesydd Budd Pennaf hefyd, er gwaethaf penodi CSFf yn ddirprwy dros ei gyllid, mai ychydig iawn o eiddo personol oedd gan yr unigolyn, hen ddillad, dim pethau ymolchi, nac unrhyw bethau personol o gwbl yn ei ystafell. Doedd dim Hanes Bywyd, felly ni wyddai'r staff gofal unrhyw beth am ddewisiadau'r unigolyn, hanes ei fywyd ac ati. Cysylltodd yr Asesydd Budd Pennaf â'i chwaer a chafodd hanes bywyd manwl, yn cynnwys manylion am ei fywyd.

Canfu'r Asesydd Budd Pennaf fod yr unigolyn yn frwd am dîm pêl-droed Manceinion Unedig a'i fod wedi bod yn ymwneud â threfnu gemau elusennol gyda Syr Matt Busby. Darganfuwyd hefyd ei fod yn well ganddo gael gwallt byr ac roedd wastad wedi eillio'i wyneb yn lân. Pan gyfarfu'r Asesydd Budd Pennaf ag o, roedd ei wallt hyd at ei ysgwyddau a barf lawn ganddo. Mewn ymgynghoriad â dirprwy swyddog Cyngor Sir y Fflint, gofynnodd yr Asesydd Budd Pennaf am gael gosod Sky TV a theledu newydd yn lle'r un bach sy'n perthyn i'r cartref gofal. Prynwyd llawer o ddillad, pethau ymolchi a lluniau, yn ogystal â ffôn symudol er mwyn i'w chwaer allu siarad ag o.

Trefnwyd iddo gael torri ei wallt a'i farf. Amodau a osodwyd i'r cartref gofal eu bodloni. Gwellodd y camau hyn ansawdd bywyd yr unigolyn yn aruthrol. Gweithiodd y tîm Trefniadau

Diogelu Rhag Colli Rhyddid gyda'r tîm Gofal Iechyd Parhaus i sicrhau bod asesiadau Deddf Galluedd Meddyliol a phenderfyniadau Budd Pennaf wedi'u cwblhau, a chynhaliwyd asesiadau risg penodol i leihau risgiau i'r unigolyn. Cynhaliwyd trafodaeth ar wersi a ddysgwyd, cyflwynwyd cyfraith achosion ynghylch y gallu i ddewis diet gan yr Asesydd Budd Pennaf a thrafodwyd y broses gan y tîm o ran arfer gorau a'r gyfraith yn y dyfodol.

Enghraifft 2

Dynes 86 oed sy'n byw mewn cartref gofal preswyl, yn byw gyda chyflwr dementia Alzheimer. Mae'r lleoliad yn ariannu ei hun, nid oes unrhyw weithwyr proffesiynol yn gysylltiedig. Mae'r unigolyn wedi byw yno ers dros 2 flynedd ac ni ofynnwyd am asesiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid nes i'r unigolyn ddianc ac aelod o'r cyhoedd yn dod o hyd iddi.

Gofynnwyd i'r Asesydd Budd Pennaf gynnal Asesiad Budd Pennaf ar gyfer Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid. Llwyddodd yr Asesydd Budd Pennaf i gasglu hanes manwl gan yr unigolyn a'i theulu. Mae hi wastad wedi bod yn unigolyn egnïol ac yn mwynhau mynd am dro yng nghefn gwlad lleol. Yn anffodus, oherwydd effeithiau'r dementia a'r risgiau cynyddol, roedd cyfyngiadau wedi'u rhoi ar waith gan y lleoliad a oedd yn cynnwys rhyddid yr unigolyn i fynd allan i'r awyr agored. Roedd hyn yn peri gofid sylweddol. Argymhellodd yr Asesydd Budd Pennaf amodau i gynnwys y lleoliad, gan ofyn am ddyfais GPS ar ôl ymgynghori â thîm teleofal CSFf. Golygai hyn bod modd trefnu teithiau cerdded i'r unigolyn a gallu dod o hyd i'w lleoliad. Mae hyn wedi galluogi'r unigolyn i gael ymdeimlad o ymreolaeth a rhyddid ac, o ganlyniad, mae wedi gwella ei hansawdd bywyd a'i lles. Heb hyn, mae'n debygol iawn y byddai'r unigolyn wedi arfer ei hawl i apelio yn erbyn yr awdurdodiad amddifadu o ryddid, a fyddai wedi arwain at gais costus i'r Llys Gwarchod.

Enghraifft 3

Roedd cyfyngiadau ymweld ar un preswylydd mewn cartref gofal mewn perthynas â'i bartner, a roddwyd ar waith mewn ymateb i bryder ynghylch diogelu. Rhoddwyd Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ar waith gan AF yn gweithredu ar ran y Corff Goruchwylio. Cwynodd y partner nad oedd wedi cael gwybod am y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid nac wedi ymgynghori â nhw, a bod hynny'n achos o hepgor.

Mae'r unigolyn perthnasol yn gwrthwynebu cael ei amddifadu o'i ryddid ac yn gwrthwynebu rhai o'r cyfyngiadau arno, yn benodol ei gyswllt cyfyngedig â'i bartner.

Gofynnwyd i'r Asesydd Budd Pennaf gynnal Asesiad Budd Pennaf mewn perthynas ag Awdurdodiad Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid pellach. Eglurodd i'r Awdurdod Rheoli, comisiynydd y gofal ac i'r unigolyn perthnasol a'r partner nad oedd unrhyw amod yn yr awdurdodiad presennol yn awdurdodi cyswllt cyfyngedig rhwng yr unigolyn perthnasol a'i berthynas. Ni chafodd unrhyw bryderon diogelu cyfredol eu hamlygu gan yr asesiad chwaith, ac nid oedd egwyddorion llai cyfyngol wedi'u rhoi ar waith.

Dadleuodd ac eglurodd yr Asesydd Budd Pennaf i bob ochr mai dim ond y llysoedd allai awdurdodi cyswllt cyfyngedig ac ymyrraeth â hawliau Erthygl 8. Argymhellodd y dylid rhoi egwyddorion llai cyfyngol ar waith, gan adlewyrchu dymuniadau a safbwyntiau'r unigolion perthnasol.

Yn dilyn argymhellion a thrafodaethau gyda'r cydlynydd gofal, mae cyfyngiadau ar y cyswllt rhwng yr unigolyn perthnasol a'i bartner wedi'u cytuno gan bob ochr ac wedi'u lleihau, sy'n cefnogi egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac arfer llai cyfyngol.

Enghraifft 4

Roedd yr unigolyn perthnasol yn byw mewn cartref gofal preswyl, lle cafodd ei leoli gan gomisiynydd ei gynllun gofal. Roedd yn byw gyda phroblemau iechyd meddwl hirdymor ac roedd cynllun y driniaeth wedi dod i ben. Roedd yn byw heb feddyginiaeth a dim cynllun ar waith o ran sut i sicrhau ei les meddyliol neu wirio a oedd yn derbyn ac yn dilyn cynllun triniaeth. Nid oedd unrhyw oruchwyliaeth broffesiynol ar waith gan weithiwr gofal iechyd meddwl arbenigol. Nododd yr Asesydd Budd Pennaf fod yr unigolyn perthnasol yn sâl iawn gyda symptomau sy'n peri pryder.

Nododd yr Asesydd Budd Pennaf hefyd nad oedd comisiynydd y gofal wedi ystyried nac asesu gallu'r unigolyn perthnasol o ran rheoli ei arian a'i eiddo.

Awdurdodwyd Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a nododd y dylai'r Awdurdod Rheoli (staff cartrefi gofal) gysylltu ar unwaith â'r tîm iechyd meddwl i gefnogi'r unigolyn perthnasol. Gwnaed hyn ac ailsefydlwyd trefn feddyginiaeth dan oruchwyliaeth broffesiynol barhaus.

Yn dilyn awdurdodiad Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, mae'r unigolyn perthnasol wedi cael cefnogaeth i apelio.

Mae achos y llys gwarchod hefyd wedi codi pryderon ynghylch gallu'r unigolion perthnasol i reoli eu harian. Mae Dirprwy bellach ar waith sy'n cefnogi'r unigolyn o ran ei eiddo a'i gyllid.

Enghraifft 5

Mae'r unigolyn perthnasol yn byw mewn lleoliad arbenigol ac yn byw gyda dementia. Nododd yr Asesydd Budd Pennaf nad oedd gan yr unigolyn perthnasol deulu agos na ffrindiau i gysylltu â nhw. Ceisiwyd Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol i sicrhau eiriolaeth.

Sefydlwyd Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a thrwy gymhwyso penderfyniadau Budd Pennaf, defnyddiwyd arian yr unigolyn perthnasol ei hun i gomisiynu cefnogaeth breifat a galluogi'r unigolyn hwnnw i gael mynediad at y gymuned, rhywbeth sydd wedi bod yn bwysig i'r unigolyn a'i drefn arferol erioed. Mae hyn wedi lleihau'r cyfyngiadau ar yr unigolyn perthnasol ac yn cefnogi dymuniadau a threfnau'r unigolyn, y byddai'n eu hystyried yn bwysig pe bai ganddo'r gallu i wneud hynny.

Plentyn mewn Gofal

Cynllunio'r cyfnod trosglwyddo a dychwelyd Plentyn A, 14 oed, yn ôl i ofal ei fam ar ôl 5 mlynedd mewn lleoliad gofal maeth. Symudwyd y plentyn yn unol â'i ddymuniadau a'i deimladau, a chafwyd cynllun gofal da gan y tîm Teulu a Sefydlogrwydd blaenorol, gan hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r unigolyn ifanc. Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol maethu pa mor dda y gweithiodd pawb i sicrhau cyfnod trosglwyddo mor ddidrafferth â phosibl. Mae cyfarfodydd adolygu wedi parhau i ddangos bod symud yn ôl at ei fam wedi bod yn gadarnhaol iawn i Blentyn A. Mae'n hapus ac yn parhau i wneud cynnydd gwych. Mae hyn yn dangos nad yw'n rhy hwyr i ailasesu ac ystyried newid cynllun gofal i ddychwelyd plentyn at ei deulu, hyd yn oed ar ôl nifer o flynyddoedd mewn gofal.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Diogelu Oedolion

Cefndir:

Fe dderbyniwyd adroddiad Oedolyn mewn Perygl yn gynnar yn 2024 lle yr honnwyd nad oedd Mr A yn mynychu apwyntiadau adolygu yn ymwneud â'i iechyd meddwl a meddyginiaeth gysylltiedig ar Bresgripsiwn. Roedd ganddo ddiagnosis o sgitsoffrenia ac roedd angen profion gwaed yn rheolaidd arno. Credwyd fod Mr A a'i wraig yn byw gyda rhieni oedrannus ei wraig mewn fflat un ystafell wely. Roedd ymdrechion wedi eu gwneud i ymweld â'i gyfeiriad cartref ond gwrthodwyd mynediad i'r ymarferwyr a aeth yno neu ni chawsant ateb yn y cyfeiriad hwn. Roedd ymholiadau'n amlygu'r ffaith fod landlord yr eiddo hefyd wedi gwneud ymdrechion parhaus i fynd i'r eiddo i siarad gyda'r tenantiaid am y gorlenwi, amodau byw gwael a'r amodau o lwydni yn y cyfeiriad hwn. Amlygwyd hefyd fod ymdrechion i ymgymryd â gwiriadau a chynnal a chadw cyfarpar a gwasanaethau yn yr eiddo wedi methu yn barhaus neu ni chaniatawyd mynediad.

Nodwyd fod pryderon tebyg wedi eu codi yn flaenorol ynglŷn â Mr A a'r gamdriniaeth bosibl gan ei wraig yn peidio â chaniatáu i'w gŵr adael yr eiddo na chaniatáu i ymarferwyr iechyd meddwl gael mynediad i siarad ag ef. Nodwyd fodd bynnag fod Mr A wedi parhau i fynychu apwyntiad fflebotomi bob mis ar adegau ar hap i gael gwirio ei waed i ddibenion y feddyginiaeth yr oedd yn ei chymryd.

Yn ystod yr ymholiadau cychwynnol roedd wedi dod i'r amlwg fod y pryderon yn ymwneud â Mrs A hefyd yn cael effaith ar iechyd a lles ei rhieni, sef y tenantiaid a enwyd ar gyfer yr eiddo un ystafell wely. Cytunwyd felly eu bod yn cael eu nodi fel oedolion mewn perygl hefyd ac yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw gais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn posibl.

O ganlyniad i'r pryderon fe gynhaliwyd sawl cyfarfod strategol a ystyriodd y dewisiadau ar gael i gael at Mr A yn ddiogel, gan gynnwys y defnydd posibl o Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn. Fe gynhaliwyd asesiad adran 135 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn dilyn hynny ym Medi 2024. Cytunwyd y dylid cynnal yr asesiad adran 135 mewn lle diogel gan fod defnydd blaenorol o adran 135 flwyddyn yn gynharach a wnaed yn yr eiddo wedi dangos fod Mr A yn ymddangos fel pe bai'n wyliadwrus ac roedd yn troi at ei wraig gyda'r holl ymatebion. Profodd y penderfyniad i fod yn un hynod o effeithiol, oherwydd unwaith yr oedd mewn lle diogel datgelodd Mr A sawl pryder yn ymwneud â diogelu a chamdriniaeth yn ei erbyn gan ei wraig a'i rhieni. Unwaith yr oedd Mr A wedi ei dderbyn ac wedi gwneud ei ddatgeliadau ynglŷn â'i deulu yng nghyfraith nid oeddent bellach yn cael eu hystyried fel oedolion mewn perygl, ond cawsant eu cefnogi drwy ymyrraeth rheoli achos.

Risgiau:

- Anghenion iechyd ddim yn cael eu bodloni o ran y tri oedolyn mewn perygl
- Camdriniaeth ariannol gan fod pob un o'r pedwar oedolyn yn byw ar fudd-daliadau'r rhieni
- Camdriniaeth emosiynol/seicolegol gan fod yr holl weithgareddau dyddiol yn cael eu lleihau'n drastig.

- Risg i denantiaeth y rhieni o ganlyniad i orlenwi a gwrthod caniatáu i swyddogion tai ddod i'r eiddo.
- Gorfodaeth a rheolaeth honedig gan Mrs A dros y tri oedolyn arall yn yr eiddo.

Heriau:

- Ystyried yr amser iawn i gychwyn y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn
- Cyfyngiadau unrhyw gais Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn pe byddai angen symud Mr A o'r eiddo
- Deddfwriaeth sy'n gwrthdaro yn ymwneud â thai, diogelu a gofal iechyd

Arfer Da:

- Ymyrraeth dda gan yr heddlu a chydweithio o ran yr achos
- Trafodaeth gychwynnol ac ystyriaeth o'r defnydd o Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn i gael mynediad i'r eiddo.
- Gwaith aml-ddisgyblaethol da drwy gydol y broses
- Ymyrraeth amserol Gweithiwr Iechyd Proffesiynol Cymeradwy a'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.
- Gwaith parhaus gyda phartneriaid iechyd meddwl cleifion mewnol i gefnogi a rheoli ymweliadau i'r ward gan y wraig ac aelodau eraill y teulu.

Y sefyllfa bresennol:

- Mae Mr A yn parhau yn glaf mewnol ac mae'n gwneud gwelliannau rhagorol o ran ei iechyd a'i anghenion cymdeithasol.
- Mae trefniadau nawr wedi eu cwblhau gyda'i ganiatâd ef i newid ei Berthynas Agosaf o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl o'i wraig i'w ewythr. Bydd hyn nawr yn golygu na ymgynghorir yn ffurfiol â'i wraig ac ni fydd ganddi'r pŵer i atal na rhwystro unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â'i iechyd meddwl.
- Caniateir Mrs A i ymweld, ond bydd mesurau diogelu yn parhau mewn grym, ac mae ganddi gyswllt ffôn ond caiff y rhain eu goruchwylio i sicrhau y cedwir unrhyw orfodaeth cyn lleied â phosibl.
- Mr A yn eglur ynglŷn â'i ddymuniad i ddychwelyd i ardal Awdurdod Lleol arall ac roedd wedi dweud y bydd yn symud ymlaen â hyn heb i'w wraig ymuno ag ef.
- Rhoddwyd cyngor i'r rhieni yng nghyfraith a chawsant eu cefnogi ond ni ystyrir hwy yn oedolion mewn risg mwyach ac ni ofynnir am unrhyw gefnogaeth gan yr awdurdod lleol ar y pwynt hwn.

Cyngor Sir Ynys Môn

Oedolion

Mae A yn ddynes 90 oed sydd wedi bod yn byw ar ei phen ei hun ers marwolaeth ei gŵr 16 mlynedd yn ôl. Mae A wedi byw mewn gwahanol leoedd ledled y byd a chredir ei bod wedi bod yn ddioddefwr trais gan ei chyn-ŵr.

Tua 6 mis yn ôl, daeth ei mab, B, i fyw gyda hi o dramor. Mae gan B nifer o euogfarnau ac mae pryderon wedi'u rhannu mewn perthynas â'r rhain. Mae sawl trafodaeth wedi digwydd gydag A mewn perthynas â chynllunio diogelwch a chadw'n ddiogel.

Ar y pryd, roedd ganddi'r gallu i ganiatáu i'w mab fyw gyda hi, ond mae ei chof wedi bod yn dirywio, ac mae hi wedi cael diagnosis o ddementia yn ddiweddar. Mae wyres A yn byw yn lleol ac mae wedi bod yn gefnogol i A drwyddi draw. Mae hi wedi bod yn glir gyda gweithwyr proffesiynol ynghylch ei phryderon mewn perthynas â B. Nid oedd A wedi cydnabod yr un o'r pryderon hyn.

Mae gweithwyr proffesiynol wedi mynegi pryderon y gall fod yn anodd siarad ag A ar ei ben ei hun. Mae B bob amser yn bresennol, a gall gyflwyno fel her. Er gwaethaf pryderon am B, ni weithredwyd gweithio ar ei ben ei hun. Mae B bob amser yn bresennol, ac mae'r ffôn bob amser ar y ffôn siaradwr, gan gael effaith reoli ar yr hyn y gellir ei drafod gydag A. Mae'r presenoldeb rheolus hwn wedi ei gwneud hi'n anodd i wasanaethau asesu a monitro risg.

Mae B yn gwadu'n barhaus bod gan A ddementia a bod ganddi unrhyw anghenion gofal. Mae'n mynnu mai ef yw gofalwr A ond mae adroddiadau gan y teulu yn dangos nad yw'n ei chefnogi. Adroddodd yr wyres fod B yn ddibynnol yn ariannol ar A ac nad yw'n cyfrannu at gyllid yr aelwyd. Roedd pryderon bod B yn defnyddio canabis yn y cartref ac mae'r wyres yn crybwyll bod gan B broblemau alcohol.

Yn ddiweddar, derbyniodd yr Awdurdod Lleol adroddiad oedolyn mewn perygl gan y tîm Nyrsio Ardal. Pan ymwelasant ag A, datgelwyd bod B wedi ymosod arni a honni ei fod wedi gafael ynddi wrth ei gwddf, rhwygo ei chlustdlysau o'i chlust ac achosi clais mawr iawn ar un o'i breichiau.

Roedd B wedi gadael y tŷ yn gynnar y bore hwnnw gan ddweud nad oedd byth yn dychwelyd. Hysbyswyd yr heddlu ar unwaith, a chymerodd y Nyrs Ardal luniau o'r cleisiau. Aed ag A i le diogel sef cyfeiriad ei hwyres. Aeth yr heddlu i'w gweld y noson honno a chymryd adroddiad gan A. Mae ei hadroddiad yn dorcalonnus iawn. Credir bod yr ymosodiad yn gynnydd mewn ymddygiad rheolus a seicolegol niweidiol sydd wedi troi'n gorfforol.

Ar ôl trafodaeth gyda'r Heddlu, cyfaddefodd A fod ei mab, B, wedi ymosod arni, gan ddatgan iddo golli ei dymer yn annisgwyl. Ychydig ddyddiau ar ôl y digwyddiad, mae A yn chwarae'r digwyddiadau i lawr ac yn dangos diffyg mewnwelediad i'r risgiau. Roedd hi wedi rhannu i ddechrau ei bod yn ofni ei mab ond yna rhannodd nad oedd erioed wedi ymosod arni. Credai fod cleisiau ar ei choes a'i braich o gwymp wrth iddi geisio agor y ffenestr ac nid o ganlyniad i ymosodiad gan B. O ganlyniad i'r digwyddiad hwn, mae A wedi derbyn anafiadau fel cleisiau i'w braich chwith, ei harddwrn dde, ac i'w hochr dde o dan ei gen.

Oherwydd y pryderon, gweithredwyd gwaith amlasiantaeth cryf ar unwaith rhwng gweithiwr cymdeithasol, yr Heddlu, Seicolegydd Clinigol, Nyrs Seiciatrig Glinigol, Nyrs Ardal a'r teulu. Mae A wedi rhoi adroddiad clir i'r Heddlu, ac mae B yn parhau i fod dan arestiad ar hyn o bryd. Mae Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig wedi ymweld ag A ac wedi cwblhau cynllun diogelwch gyda hi. Mae Gweithiwr Cymdeithasol a Seicolegydd yn y broses o gwblhau asesiad capasiti mewn perthynas â llety gan fod arwyddion nad yw A yn cofio'r digwyddiad ac yn methu â chydnabod y niwed y gall B ei achosi iddi.

Mae pob asiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig y gefnogaeth a'r asesiadau cywir i A a'i hwyres ar yr adeg y mae angen amddiffyniad a diogelu arni. Mae heriau oherwydd bod A bellach naill ai'n chwarae'r digwyddiad i lawr neu wedi anghofio amdano.

Oherwydd y gred nad oes gan A y gallu i gydsynio i'r broses ddiogelu, mae'r egwyddorion pwysicaf wedi'u rhoi ar waith. Ar hyn o bryd mae A yn byw gyda'i hwyres, yn hapus ac yn

derbyn y gefnogaeth. Mae pryder y gallai A fod wedi bod yn byw mewn ofn ers tro, ac o bosibl drwy gydol y rhan fwyaf o'i bywyd fel oedolyn, o'r wybodaeth a rannwyd am ei chyn-ŵr.

O ran B, mae amodau mechnïaeth mewn lle, a gofynnwyd am Orchymyn Diogelu rhag Trais Domestig (DVPO).

Plant

Roedd y teulu'n cynnwys mam a 2 o blant 10 a 14 oed.

Rheswm dros atgyfeirio:

Derbyniwyd nifer o atgyfeiriadau i wasanaethau plant a theuluoedd yn ymwneud â phryderon ynghylch iechyd meddwl y fam a defnydd niweidiol o alcohol. Mae'r teulu wedi derbyn cefnogaeth yn flaenorol gan y gwasanaeth plant a theuluoedd ynghylch defnydd alcohol ac iechyd meddwl gwael y fam.

Ymyrraeth:

Ar ddechrau'r ymyriad roedd y fam a'r tad wedi gwahanu ac roedd y plant yn byw gyda neiniau a theidiau ar ochr y fam a'r tad. Darparwyd yr ymyriad i'r fam a chanolbwyntiodd ar ddefnydd niweidiol o alcohol ac iechyd meddwl gwael y fam. Trefniant teuluol preifat oedd peidio â bod yn y cartref teuluol tra bod y fam yn mynd drwy ei hanawsterau. Y cynllun oedd iddynt allu dychwelyd i'w gofal unwaith y byddai hi wedi delio â'i hanawsterau.

Roedd yr ymyrraeth yn cynnwys:

- Archwilio beth oedd yn bwysig i'r fam a nodi ei chryfderau.
- Archwilio'r effeithiau y mae alcohol yn eu cael arnom ni fel unigolion.
- Archwilio'r effeithiau y mae alcohol yn eu cael ar ein plant.
- Archwilio beth yw dyfodol dewisol y fam a gosod nodau i symud ymlaen at hyn.
- Archwilio rhesymau dros newid yn erbyn rhesymau dros beidio â newid.
- Archwilio'r cysylltiad rhwng defnyddio alcohol niweidiol ac ymddygiad sy'n cymryd risg.
- Roedd yr ymyrraeth yn cynnwys cefnogi'r fam i geisio cymorth meddygol mewn perthynas â'i defnydd o alcohol.
- Roedd yr ymyrraeth yn cynnwys cefnogi'r fam i ailgysylltu â'r tîm Iechyd Meddwl Cymunedol.
- Cefnogi'r fam i gyfeirio ac ymgysylltu â'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau.
- Cefnogi'r fam i fynychu cyfarfodydd Alcoholics Anonymous lleol.
- Cefnogi'r fam i feithrin hyder a gwydnwch wrth fynychu'r grwpiau/cyfarfodydd hyn.

Nodau

Y nod cyffredinol i'r fam oedd ei bod hi eisiau rhoi'r gorau i yfed a gallu bod yn sobor am fwy na blwyddyn. Er mwyn gallu gwneud hyn, gosododd y fam y 2 nod llai hyn a fydd yn ei helpu i gyflawni a chynnal ei nod cyffredinol.

1. Peidio â chyffwrdd â diferyn o alcohol.
2. Mynychu ei holl gyfarfodydd Alcoholics Anonymous ac Apwyntiadau Camddefnyddio Sylweddau.

Canlyniadau

- Nid yw'r fam yn yfed mwyach.
- Mae'r fam yn mynychu cyfarfodydd Alcoholics Anonymous.
- Mae'r fam yn mynychu ei hapwyntiadau yn y tîm Iechyd Meddwl Cymunedol.
- Mae'r fam bellach yn cael y plant i aros gyda hi dros nos.
- Mae'r fam bellach yn ôl yn y gwaith.
- Mae'r fam yn adrodd bod ei hiechyd meddwl yn well.
- Mae'r fam bellach yn dychmygu dyfodol heb alcohol.
- Mae'r fam wedi cydnabod bod ei defnydd o alcohol yn niweidiol a'i bod yn cael anawsterau gydag alcohol.

Effaith ar y Plentyn

- Nid yw'r plant bellach yn agored i ddefnydd niweidiol eu mam o alcohol na'i hiechyd meddwl gwael.
- Mae'r plant yn treulio mwy o amser ystyrlon gyda'u mam.
- Mae plant yn cael eu cefnogi gan ymyrraeth a fydd yn cefnogi eu lles emosiynol.
- Mae gan y plant eu rhiant sydd ar gael yn fwy emosiynol iddynt.
- Mae'r plant yn gallu dychwelyd i'w cartref.
- Mae'r plant yn gweld mam yn hapusach.
- Mae'r plant yn gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol gyda mam ac yn edrych ymlaen at y rhain.

Bydd y teulu'n cael ei gefnogi am gwpl o wythnosau pellach i gwblhau cam cychwynnol 1 yr ymyrraeth, mae hyn i sefydlu a sicrhau cefnogaeth ar gyfer y dyfodol i helpu'r fam i gynnal ei hymwrthod o alcohol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Pecyn Sgrinio Cam-drin Domestig

Cafodd Pecyn Sgrinio Cam-drin Domestig newydd ei ddyfeisio gan Ddiogelu a Gwarchod y Cyhoedd BIPBC mewn ymgynghoriad ag Asiantaethau Cefnogi Cam-drin Domestig y Trydydd Sector o fewn Gogledd Cymru (DASU a Gorwel). Roedd y newid i'r pecyn sgrinio o ganlyniad i adborth uniongyrchol gan gydweithwyr a nododd nad oedd y cwestiynau 'HITS' cenedlaethol yn gyfredol gydag agweddau modern Cam-drin Domestig a bod enw'r pecyn ei hun 'HITS' ddim yn acronym sensitif ar gyfer dioddefwyr Cam-drin Domestig. Lansiwyd y pecyn ar draws y Bwrdd Iechyd yn ystod Wythnos Ddiogelu yn Nhachwedd 2024. Mae sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant a deunyddiau ychwanegol wedi cael eu cynhyrchu a'u rhannu ar draws gwasanaethau.

ATGOFFWCH: Rydym yn gofyn y cwestiynau hyn oherwydd gallwn gynnig cymorth ac ymyriadau i helpu i gadw'r unigolyn yn ddiogel. COFIWCH: Sicrhewch y gwelir yr unigolyn ar ei phen/ben ei hun, ac mewn amgylchedd diogel, fel y gall siarad yn ddirwystr. Dylid ceisio'i (g)weld ar ei phen/ben ei hun.			
<u>Offeryn Sgrinio Cam-drin Domestig</u> C. A fydd eich partner, eich cynbartner, neu unrhyw un sydd â pherthynas agos â chi (e.e. aelod o'r teulu)....			
	Yn defnyddio sarhad neu'n eich cam-drin yn emosiynol mewn unrhyw ffordd? *Yn eich beirniadu'n ddiddiwedd, yn gwneud i chi deimlo'n ddi-werth, yn dwyn cywilydd arnoch chi, yn eich 'gasleitio' neu'n eich 'bomio â chariad' (rhoi sylw hael i chi/yn mynegi teimladau annwyl iawn atoch chi er mwyn eich defnyddio chi)*	NA FYDD	BYDD
	Yn eich monitro chi ar-lein neu ar gyfyngau cymdeithasol? *E.e. darllen eich e-byst, eich negeseuon testun, yn gwirio eich ffôn symudol neu'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, yn olrhain eich lleoliad heb eich caniatâd ac ati.*	NA FYDD	BYDD
	Yn gwneud i chi deimlo'n ofnus neu dan fygythiad? *Yn gweiddi, yn bygwth trais neu gysylltu â gwasanaethau, canslo pasbort/fisa ac ati?*	NA FYDD	BYDD
	Yn eich monitro chi'n ofalus, yn eich ynysu a/neu'n gwrthod gadael i chi wneud dewisiadau/penderfyniadau yn annibynnol (yn cynnwys rhai yn ymwneud ag arian) er mwyn bod â phŵer drosoch chi a/neu i allu eich rheoli chi? *Bydd hyn yn digwydd dros amser.*	NA FYDD	BYDD
	Yn eich brifo'n gorfforol neu'r rhywiol? *Taro, cicio, gwthio, slapio, eich brathu, dweud sylwadau difrïol amdanoch chi neu eich gorfodi/cymell i gyfranogi mewn unrhyw weithgarwch rhywiol neu eich defnyddio at unrhyw ddiben o'r fath yn groes i'ch ewyllys.*	NA FYDD	BYDD
Mae ateb BYDD unwaith neu ragor yn awgrymu bod cam-drin yn digwydd. Cyfeiriwch at lwybrau VAWDASV ar tudalen Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd BetsiNet BIPBC Cysylltwch a llinell gymorth Live Fear Free ar 0808 80 10 800.			

Grŵp Sicrwydd Ansawdd SUSR Tîm Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd

- Pwrpas cyffredinol y Grŵp yw monitro gweithgarwch SUSR ar draws Gogledd Cymru. Mae hyn yn galluogi'r tîm i gynnig ymateb priodol ac ymgysylltiad cadarn gyda SUSR sydd wedi'u comisiynu.
- Mae'r Grŵp yn cefnogi'r trefniadau llywodraethu ac adrodd wrth gryfhau'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â dysgeidiaeth ar ôl-troed rhanbarthol sy'n ymestyn i 6 Awdurdod Lleol.
- Mae'r Grŵp yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ddysgeidiaeth diogelu aml-asiantaeth ac yn gosod sail ragweithiol, gefnogol a thryloyw ar gyfer dysgu.
- Mae'r aelodaeth yn cynnwys y Tîm Diogelu sy'n ymgysylltu'n weithredol gyda holl adolygiadau a'r Meddyg Dynodedig ar gyfer Diogelu Plant sy'n cefnogi Paediatregwyr sy'n ymgysylltu yn yr adolygiad.
- Defnyddir model goruchwylio adferol o oruchwyliaeth glinigol. Mae hyn yn blaenoriaethu lles emosiynol a chadernid yn sgil y gofynion heriol y rolau amrywiol o fewn adolygiad.

Adrodd ar Ddata Perfformiad Wythnosol, Misol a Blynyddol

- Yn darparu data Oedolion mewn Perygl, Oedolion mewn Perygl MHLD, Plant mewn Perygl, MARAC a DoLS.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o dueddiadau a themâu.
- Yn darparu sicrwydd i dystio gweithrediad gweithgareddau strategol a gweithredol.
- Yn cefnogi hyfforddiant a dysgeidiaeth wedi'i dargedu, ymyrraeth sicrwydd ar draws y Bwrdd Iechyd.

Arian DoLS /MCA Llywodraeth Cymru

- Mae cyllid ychwanegol wedi darparu cyfleoedd i fynd i'r afael â nifer y ceisiadau DoLS a chymryd camau uniongyrchol i sicrhau cydymffurfiaeth â fframweithiau deddfwriaethol.
- Mae Arweinydd Hyfforddiant MCA wedi cael ei benodi i hyrwyddo ymwybyddiaeth ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Cydymffurfiaeth hyfforddi, ymwybyddiaeth a gwybodaeth well o MCA ar draws BIPBC.
- Gwelliant yn ansawdd ceisiadau DoLS wedi'i gofnodi gyda lleihad o dros 50% mewn camgymeriadau.
- Mae terfynau amser asesiadau wedi gwella gan arwain at leihad mewn oedi awdurdodiad.

Heddlu Gogledd Cymru

Operation Makesafe

Mae Operation Makesafe yn ymgyrch sydd wedi'i llunio i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio ar blant yn y gymuned fusnes, yn enwedig diwydiannau fel gwestai, safleoedd trwyddedig, cwmnïau tacsis, siopau a chartrefi gofal. Yn wreiddiol roedd yn canolbwyntio ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ond mae bellach yn cwmpasu pob math o gamfanteisio, gan gynnwys camfanteisio troseddol.

Nodau'r fenter yw:

- Nodi dioddefwyr posibl a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu'n effeithiol.
- Hyfforddi busnesau i adnabod arwyddion o gamfanteisio a chymryd camau gweithredu.
- Gwella diogelwch y cyhoedd a darparu sicrwydd trwy fesurau ataliol.

https://www.youtube.com/watch?v=7Izq9SosOGE

Yng ngogledd Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein gwaith wedi cynnwys ymweld â 80 o westai, 5 safle gwersylla a 18 safle carafanau. Gan fod cymaint o dwristiaeth a safleoedd gwersylla yng ngogledd Cymru fel lleoliadau lletygarwch, fe wnaethom y penderfyniad i'w cynnwys yn yr ymgyrch.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn siarad â staff, yn rhannu llenyddiaeth ac addysgu am sut i ddarganfod arwyddion ac adrodd am amheuon o gamfanteisio ar blant.

Eleni bydd gennym lenyddiaeth bwrpasol ar gyfer yr ymgyrch Makesafe gan gynnwys llyfrynnau gwybodaeth, posteri a chod QR Makesafe.

Yn ddiweddar rydym wedi ymestyn y gwaith yn fewnol gyda'n cydweithwyr "Dangos y Drws i Drosedd" i gefnogi ein gilydd a sicrhau ein bod yn ehangu faint o fusnesau yr ydym yn ymweld â nhw.

Mae awdurdod lleol Ynys Môn wedi dangos diddordeb mewn gweithio gyda ni i ymestyn cyrhaeddiad yr ymgyrch hon, ac rydym yn croesawu diddordeb gan bartneriaid eraill hefyd.

Roedd Operation Debano yn ymchwiliad i Samuel Erlandson, ffigur cyhoeddus amlwg yn ei rôl fel offeiriad a oedd yn addysgu mewn sefydliad addysg lleol.

Ar ôl cael hysbysiad o ddefnyddiwr yn edrych ar luniau anweddus o blant ar-lein, nododd tîm OCAIT Heddlu Gogledd Cymru, trwy eu hasesiad brysbennu dechreuol, mai'r troseddwr posibl oedd Mr Erlandson a bod angen cymryd camau gweithredu cynnar oherwydd ei swydd fel rhywun i ymddiried ynddo a'i gyswllt agos a'i allu i gael mynediad at blant.

Cafodd ei arestio ar yr un diwrnod ac er mai ymchwiliad i ddelweddau anweddus ar-lein oedd hwn, nododd swyddogion fod posibilrwydd o droseddu ehangach a bod plant mewn perygl.

Trwy rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau aml-asiantaethol agos, ymwelodd yr heddlu a gwasanaethau plant yr awdurdod lleol â thros 30 o blant mewn cyfnod byr i ganfod a oedd unrhyw droseddau pellach, gan gynnwys camdriniaeth, wedi digwydd. Cynorthwyodd y dull gweithredu hwn i greu darlun ar y cyd ag ymholiadau eraill fel rhan o'r ymchwiliad troseddol.

Ni lwyddodd yr ymchwiliad i ganfod tystiolaeth o gamdriniaeth plant ehangach, ond fe ddarparodd sicrwydd i'r rhieni, y gymuned ehangach a gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys athrawon eraill, bod yr ymchwiliad wedi'i gynnal yn effeithlon ac yn drylwyr. Trwy weithio'n effeithiol mewn tîm amlasiantaethol, lllwyddwyd i gymryd y camau cyflym hyn er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth gywir yn cael ei chynnig i'r bobl a oedd wedi'u heffeithio.

Diogelu Oedolion Cyngor Sir Dinbych
Astudiaethau Achos a Chrynodeb Archwilio Mewnol

Deilliodd yr astudiaeth achos ganlynol o gyfnod hir o ymgysylltu amlasiantaethol â dinesydd â chyflwyniad cymhleth (P). Cyflwynodd P gydag anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â thai, problemau camddefnyddio sylweddau, pryderon iechyd corfforol, a phryderon sylweddol ynghylch hunan-esgeulustod.

O ganlyniad i'r cyflwyniad cymhleth hwn, defnyddiwyd y Polisi Hunan-esgeulustod i ffurfioli ymateb gwasanaethau wrth ddiwallu anghenion P a sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu trwy ymateb amlasiantaethol i'w amgylchiadau. Nid oes adroddiad diogelu wedi'i gyflwyno mewn perthynas â P.

Defnyddiwyd offeryn archwilio hunan-esgeulustod (Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru) gan y tîm i nodi cydymffurfiaeth â'r polisi, a meysydd ar gyfer datblygiad a dysgu pellach.

Mae gan P hanes o ddatgysylltu o wasanaethau ac oherwydd hanes o drawma mae'n cael anhawster ymddiried mewn eraill, sy'n ei gwneud hi'n anodd ymgysylltu a chynnal ymgysylltu â gwasanaethau cefnogol.

Daeth yr atgyfeiriad at ofal cymdeithasol oedolion wrth i'r gefnogaeth denantiaeth yr oedd P yn ei derbyn i gynnal ei denantiaeth ddod i ben, ac roedd pryderon ynghylch ei lesiant heb gefnogaeth. Cynhaliodd y tîm atal digartrefedd dri chyfarfod Tîm Aml Ddisgyblaeth i drafod trefniadau gofal a chymorth ar gyfer P ond cyfarfodydd anffurfiol oedd y rhain nad oeddent yn cael eu cynnal o dan y polisi Oedolion sy'n Hunan-Esgeuluso. Cwblhawyd asesiad gofal a chymorth gan Gofal Cymdeithasol Oedolion a chynhaliwyd cyfarfod dilynol o dan y Polisi Oedolion sy'n Hunan-Esgeuluso.

I ddechrau, roedd ymgysylltiad asiantaethau partner yn gyfyngedig, ond nodwyd nifer o anghenion gofal a chymorth, ynghyd â hanes o hunan-niweidio a phryderon iechyd lluosog oherwydd diffyg cydymffurfiaeth ag apwyntiadau meddyginiaeth a gofal iechyd.

Crynodeb o'r amgylchiadau a'r pryderon.

Cyflwynodd P gydag anghenion gofal a chymorth cymhleth ac ar adegau roedd yn amwys ynghylch ymgysylltu â gwasanaethau a oedd yn ceisio cefnogi ei lesiant. Cynyddodd defnydd parhaus P o alcohol y risg iddo a gallai ei lefel o allu i wneud penderfyniadau newid yn ddyddiol.

Darparodd y polisi strwythur a phroses ar gyfer trafodaethau ynghylch P a ffurfiolodd gofnodi risgiau a chamau gweithredu penodol o fewn y Tîm Aml Ddisgyblaeth. Galluogodd y cyfarfodydd bob asiantaeth a oedd yn ymwneud â P i fod yn ymwybodol o anghenion cymorth P a chytuno sut y gellid diwallu'r rhain. Roedd asiantaethau hefyd yn gallu mynegi eu cylch gwaith gwasanaeth, neu eu barn ar reoli risgiau i P.

Casglwyd Asesiad Risg Aml-Asiantaeth cynhwysfawr a adolygwyd ym mhob cyfarfod, ac roedd dealltwriaeth glir o bwy oedd yn ymweld â P a phryd, gyda chefnogaeth gan y Tîm Aml Ddisgyblaeth i aelodau staff uwchgyfeirio unrhyw bryderon yn ystod eu cyswllt â P.

O ganlyniad, derbyniodd gefnogaeth gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion, ynghyd â gwasanaethau cymunedol ychwanegol yn cael eu defnyddio a gwiriad diogelwch tân o'i eiddo yn cael ei gwblhau.

Canlyniadau Dysgu:

Mae'r polisi Oedolion sy'n Hunan-Esgeuluso wedi darparu fframwaith effeithiol i hwyluso rhannu gwybodaeth, cydweithio ac wedi cefnogi i reolaeth risg priodol gael ei wneud, gan arwain at gefnogaeth wedi'i diffinio a'i chydgysylltu.

Cyflwynodd P ag anghenion cymhleth, a gwnaed gwaith sylweddol gan y Tîm Aml Ddisgyblaeth i feithrin perthnasoedd ymddiriedus ag ef er mwyn iddo fod yn barod i dderbyn y gofal a'r gefnogaeth yr oedd eu hangen arno.

Ymddengys bod diffyg perchnogaeth o'r Polisi Oedolion sy'n Hunan-Esgeuluso ar draws gwasanaethau, ac ni ystyriwyd ei ddefnydd yn gynharach gyda P er gwaethaf y dangosyddion o esgeulustod yn amlwg i ystod o wasanaethau cyn i'r adran gofal cymdeithasol ddod i gysylltiad ag ef.

Roedd cyfnodau pan oedd P yn profi problemau iechyd sylweddol ac angen gofal brys. Gan fod P wedi ymddieithrio dro ar ôl tro o wasanaethau ar lefelau gofal sylfaenol ac eilaidd ar sawl achlysur, mae angen ystyried system ar gyfer casglu'r risgiau hyn a'u huwchgyfeirio o fewn systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

Astudiaeth Achos Adran 5

Digwyddiad a adroddwyd gan Goleg Preswyl yn manylu bod preswylydd yng ngofal gweithiwr cymorth 1:1 wedi cael ei gludo i'r ysbyty ar ôl cael gwaedu dwyochrog i'r ymennydd. Dywedwyd bod y dinesydd wedi cynhyrfu ac wedi ymddwyn oddi ar y llinell sylfaen ac wedi eistedd ar y llawr gan daro ei ben dro ar ôl tro rhwng y wal a'r rheiddiadur gan achosi iddo golli ymwybyddiaeth, gan olygu bod angen adfywio brys, a chael ei gludo i'r ysbyty ac yna i ofal dwys mewn uned arbenigol anafiadau i'r ymennydd. Roedd yr adroddiad digwyddiad a'r Adroddiad Oedolion mewn Perygl dilynol yn manylu ar hanes y gweithiwr cymorth 1:1 a oedd yr unig dyst i'r digwyddiad. Cyflwynodd y cyflogwr atgyfeiriad Adran 5 oherwydd teimlwyd nad oedd yr hanes yn cydberthyn â natur ac ystod yr anafiadau a'r ymddygiad a ddisgrifiwyd gan y gweithiwr cymorth 1:1. Teimlai'r cyflogwr hefyd fod cwestiynau ynghylch lefel yr oruchwyliaeth ar adeg yr ymddygiad hunan-niweidio.

Camau a gymerwyd

Roedd yr ymholiad adran 126 a'r atgyfeiriad Adran 5 yn rhedeg ochr yn ochr. Cynhaliwyd Cyfarfodydd Trafod Strategaeth ac roedd yr Heddlu yn rhan o'r ddau. Ceisiwyd ffotograffau o anafiadau, dadansoddiad clinigol a barn ynghylch a oedd y gwaedu i'r ymennydd yn unol â'r adroddiad a roddwyd neu a allai hyn fod wedi bod oherwydd unrhyw ymosodiad gan y gweithiwr cymorth. Cafodd hyn ei ddiystyru gan y gweithiwr meddygol proffesiynol a adroddodd fod yr anafiadau 'yn unol' â'r adroddiad a roddwyd.

Cadarnhaodd yr heddlu na fyddent yn bwrw ymlaen ag ymchwiliad troseddol, a bod y mater am gael ei gau ganddynt. Cytunwyd, oherwydd difrifoldeb yr honiad a'r effaith ar y dinesydd, y gallai'r cyflogwr gychwyn ei ymchwiliad mewnol ei hun ac os byddai unrhyw wybodaeth bellach yn dod i'r amlwg, y byddai hyn yn cael ei rannu â'r Heddlu. Gweithredodd y cyflogwr strategaeth rheoli risg trwy wahardd yr aelod staff o'r gwaith tra'n disgwyl canlyniad yr ymchwiliad.

Yn unol â gweithdrefnau Adran 5, anfonwyd llythyr at y gweithiwr yn hysbysu ei fod yn destun y broses fel y'i manylir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru a chafodd wybod am natur y pryderon / honiadau. Galwyd Cyfarfodydd Strategaeth i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr ymchwiliad mewnol gan y cyflogwr.

Canfu'r ymchwiliad mewnol fod yr aelod staff wedi parhau i roi'r un fersiwn o'r digwyddiadau a datgan bod y cynllun gofal wedi'i ddilyn a bod camau amserol wedi'u cymryd i geisio cymorth brys. Ni allai'r aelod staff roi cyfrif am yr anafiadau eraill ac roedd gweithwyr meddygol proffesiynol eisoes wedi datgan na allent gysylltu â'r digwyddiad. Canfu'r ymchwiliad mewnol nad oedd tyst i'r digwyddiad hwn felly nid oedd dim i gadarnhau'r adroddiad.

Penderfynodd casgliad y broses Adran 5 *'nad oedd tystiolaeth adnabyddadwy annigonol i brofi na gwrthbrofi'r honiad'* ac na awgrymir euogrwydd na diniweidrwydd.
Anfonwyd llythyr gan Gadeirydd y cyfarfod at yr unigolyn yn hysbysu'r canlyniad, gan egluro'r rheswm dros y canlyniad a chau'r broses hon. Nid oedd angen unrhyw gamau diogelu

ychwanegol, ni nodwyd unrhyw risgiau pellach, ac yna caewyd yr achos. Roedd y tîm diogelu yn gallu dangos eu bod yn glynu'n glir at weithdrefnau diogelu gan sicrhau bod dull amlasiantaeth yn cael ei gynnal a bod pob parti yn cael ei ddiweddaru wrth i'r heddlu ac ymchwiliadau mewnol gael eu cwblhau.

Proses rheoli ansawdd ac archwilio mewnol.

Cynhaliwyd proses archwilio mewnol i archwilio ansawdd y broses o wneud penderfyniadau a chofnodi camau gweithredu mewn perthynas ag adroddiadau diogelu a dderbyniwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2025.

Nododd yr archwiliad fod y broses o wneud penderfyniadau yn gadarn ac wedi'i chofnodi'n dda, gydag aelodau'r tîm diogelu yn cynnal adolygiad gan gymheiriaid o'r broses o wneud penderfyniadau ac yn dysgu o ymchwiliadau 'byw' o dan S126.

Gwnaed gwelliannau i ganllawiau mewnol ar asesu adroddiadau CID 16 ac offer cymorth pellach i gynorthwyo gwneud penderfyniadau o fewn tîm Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych, sy'n ymgymryd â'r broses gychwynnol o adroddiadau diogelu.

Roedd yr archwiliad yn broses gydweithredol a gynhaliwyd rhwng staff Un Pwynt Mynediad a'r tîm diogelu oedolion, gyda sesiynau gyda chymheiriaid i gael adborth ar y canllawiau diwygiedig a'u gweithrediad.

Cynhaliwyd archwiliadau pellach ym mis Mai a mis Mehefin 2025 i sicrhau bod y canllawiau wedi'u hymgorffori'n llawn ar draws y timau, a bydd y rhain yn parhau o bryd i'w gilydd i sicrhau bod gwneud penderfyniadau a phrosesau yn parhau i fod o ansawdd da.

Gwasanaethau Plant

Model Amddiffyn Plant yn Effeithiol - Diweddariad mis Mawrth 2025

Ym mis Mehefin 2024, fe glustnodwyd y dasg o ddatblygu'r Model Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn Sir Ddinbych i Swyddog Adolygu Diogelu Annibynnol a drefnodd gyfarfodydd cwmpas gyda phob rheolwr a mynychodd hyfforddiant Amddiffyn Plant a Risg 2. Mae'r Swyddog Adolygu Diogelu Annibynnol yn cael cyfarfodydd misol gyda mentoriaid Amddiffyn Plant yn Effeithiol o Awdurdodau Lleol eraill yng ngogledd Cymru yn ogystal â mynychu grŵp cyfeirio rhanbarthol Amddiffyn Plant yn Effeithiol. Mae hyfforddiant Risg 2 ac Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi cael eu trefnu i gael eu cynnal ym mis Mehefin, Gorffennaf a Medi 2025 a bydd yn orfodol bod pob gweithiwr cymdeithasol a rheolwr yn eu mynychu. Mae'r prosesau a'r ffurflenni wrthi'n cael eu hadolygu er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r model gyda grwpiau tasg a gorffen i gwblhau'r gwaith yma.

Mae sesiynau Materion Sylfaenol wedi cael eu darparu i asiantaethau partner o ran beth i'w ddisgwyl a sut i gyfrannu'n effeithiol at Gynadleddau Amddiffyn Plant ac roedd adborth o'r sesiynau yma'n gadarnhaol iawn.

Wrth symud ymlaen, mae yna gynllun gweithredu ar waith ar gyfer y prosiect sy'n cynnwys trefnu sesiynau briffio pellach ar gyfer asiantaethau partner am y model Amddiffyn Plant yn Effeithiol. Mae tîm y Swyddog Adolygu Diogelu Annibynnol yn gweithio ar logisteg er mwyn sicrhau y gall Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol ddychwelyd i fod yn rhai wyneb yn wyneb ac mae'r Swyddog Adolygu Diogelu Annibynnol wrthi'n sefydlu fforwm ar gyfer

Cadeiryddion Cynadleddau Amddiffyn Plant ar draws Gogledd Cymru i rannu arfer da a fydd yn cynnwys gweithredu Amddiffyn Plant yn Effeithiol mewn cynadleddau.

Datblygu'r Gweithlu

Isod y mae gweithgareddau y mae'r Tîm Datblygu'r Gweithlu wedi'u cynnal yn 2024/25 sydd wedi effeithio ar Wasanaethau Plant:-

- Wedi gweithio gyda'r Swyddog Adolygu Diogelu Annibynnol i gynllunio i gyflwyno'r Amddiffyn Plant yn Effeithiol. Mae'r Swyddog Datblygu Gweithlu yn helpu i drefnu sesiynau a sicrhau hyfforddiant wedi'i gomisiynu o amgylch diogelu sydd yn cynnwys yr egwyddorion yma.
- Gweithredu'r gwaith o bontio o becyn Diogelu Sylfaenol Cymru Gyfan i'r pecyn hyfforddiant Diogelu Grŵp B yn unol â'r Safonau Diogelu newydd.
- Parhau i ymestyn y defnydd o bensetiau rhith-wirionedd. Maent wedi arfer cefnogi dysgu o amgylch trawma a chamdriniaeth mewn amrywiaeth o leoliadau gyda chynulleidfa amrywiol ac maent wedi cael eu darparu i nifer o dimau mewnol yng ngwasanaethau oedolion a phlant. Mae'r tîm wedi arwain sesiynau ar gyfer myfyrwyr Lefel 3 ar gwrs cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol City & Guilds Coleg Llandrillo o ran diogelu, ac maent wedi'u darparu i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol a Phlismona o Brifysgol Wrecsam i hyrwyddo dealltwriaeth rhwng asiantaethau am rolau a phersbectifau gwahanol o ran gweithgareddau diogelu gan weithwyr proffesiynol. Mae'r tîm wrthi'n trafod gyda Phrifysgol Cymru Bangor i gynnal gwerthusiad o effeithiolrwydd rhith-wirionedd fel adnodd dysgu ym maes gofal cymdeithasol.
- Parhau i fuddsoddi yn 'Flourish' (ACEducation gynt) ar gyfer Gofalwyr Maeth i allu cael gafael ar amrywiaeth eang o gynnwys dysgu i'w cefnogi yn eu datblygiad. Mae'r tîm hefyd wedi cwblhau'r gwaith o gaffael Cronfa Ddysgu, eu system rheoli dysgu eu hunain lle bydd modiwlau e-ddysgu ar gael ar gyfer aelodau mewnol ac allanol a gomisiynir o'r gweithlu.
- Mae Datblygu'r Gweithlu wrthi'n gweithio gyda'r Tîm Therapiwtig i drefnu i barhau i gyflwyno Cyfathrebu ar y Cyd i Wasanaethau Oedolion a Phlant.

Gan barhau mewn i 2025/26, mae Tîm Datblygu'r Gweithlu yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ynghyd ag Awdurdodau Lleol eraill ac asiantaethau partner i gefnogi datblygiad y pecyn hyfforddi yma o staff sydd angen hyfforddiant Diogelu Grŵp C.

Lleisiau plant/pobl ifanc, rhieni/gofalwyr

Er mwyn gwella ymgysylltu ac ymgynghori gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo dros y blynyddoedd diwethaf ar adolygu ein hadnoddau presennol a dulliau o gofnodi eu lleisiau, ac mae'r rhain yn cynnwys:-

Arolygon Dweud eich Dweud – Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod llais ein plant a phobl ifanc yn cael ei glywed ar bethau sy'n bwysig iddynt. Mae nifer o adnoddau amrywiol ar gael iddynt ac fe'u hanogir i'w defnyddio. Gallant gael mynediad atynt a'u cwblhau wyneb yn wyneb gyda'u gweithiwr, drwy ddolen electronig, neu drwy sganio cod QR.

Yn cyd-fynd â'r arolygon y mae taflen yn egluro dull a phroses pob arolwg ac mae pob ffurflen yn cael ei safio yn ffolder y plentyn.

Mind of My Own - Platfform ar-lein sy'n galluogi plant a phobl ifanc sy'n gweithio gyda'n Gwasanaethau Addysg a Phlant i ymgysylltu gyda'u gweithiwr a rhannu eu safbwyntiau ynglŷn â'r gofal maent yn ei dderbyn, eu pryderon, ofnau a llwyddiannau. Gall plant a phobl ifanc ddefnyddio Mind of my Own i gyfrannu at eu canlyniadau lles yn rhan o'u cynlluniau gofal a chefnogaeth.

Yn 2024-2025, cyrhaeddodd Sir Ddinbych y garreg filltir o 'Glwb 1000'; mae'r gwasanaeth wedi cael dros 1000+ o ddatganiadau gan blant a phobl ifanc yn rhannu eu barn ers 2020.

Rhoddodd berson ifanc a gofalwr maeth o Sir Ddinbych adborth cadarnhaol i Senedd Cymru hefyd yn rhan o ymchwiliad 'Plant sydd ar yr Ymylon' (canolbwyntio ar blant coll a phlant sy'n cael eu troseddoli). Darparwyd rhagor o wybodaeth gan Wasanaethau Plant Sir Ddinbych ar ddefnyddio Mind of my Own ar gyfer Astudiaeth Achos a gynhaliwyd yn rhan o'r ymchwiliad hwn.

Cafodd enghraifft o arfer gorau ei nodi gan Gadeirydd Cynhadledd ynglŷn ag ysgol gynradd yn cefnogi plant ar y gofrestr amddiffyn plant i ddefnyddio Mind of My Own yn rhan o'u sesiynau meithrin a lles wythnosol i anfon eu barn, meddyliau a theimladau i'w Gweithiwr Cymdeithasol.

Fe sefydlwyd cysylltiadau rhwng ysgolion a Swyddog Cyswllt Lleoliadau Addysg i ymestyn y peilot presennol a chefnogi defnyddio Mind of My Own mewn ysgolion i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan sicrhau bod eu barn yn cael eu clywed mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant er enghraifft, ac archwilio sut mae'r rhai sy'n sgorio'n isel o ran 'agwedd i ddysgu' yn cael eu hadnabod yn nata Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol (PASS).

Mae gan 207 o bobl ifanc Gyfrif One Mind of My Own ac mae gan 200 o Weithwyr Gyfrif Ymarferydd Mind of My Own. Cafwyd tua 245 o Ddatganiadau gan Blant a Phobl Ifanc rhwng 5 a 17 oed ers mis Ebrill 2024, gan sicrhau bod eu barn yn cael eu clywed am eu bywydau a'u gofal.

Ffurflenni Cyn Cynadleddau Amddiffyn Plant - Er mwyn casglu barn plant a phobl ifanc mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant, gofynnir i staff annog y bobl ifanc maent yn gweithio â hwy i lenwi ffurflenni ymgynghori cyn Cynhadledd Amddiffyn Plant, yn arbennig os nad oes arnynt eisiau mynychu'r gynhadledd. Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae casglu barn pobl ifanc yn caniatáu i aelodau'r gynhadledd glywed pethau o safbwynt yr unigolyn ifanc a weithiau wrth drafod pryderon, gall llais yr unigolyn ifanc fod ar goll.

Rhestr Termau:

ADD	Adolygiad Dynladdiad Domestig
ADIM	Anableddau Dysgu Iechyd Meddwl
ADUS	Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
ALl	Awdurdod Lleol
AYO	Adolygiad Ymarfer Oedolion
AYOE	Adolygiad o Ymarfer Oedolion Estynedig
AYP	Adolygiad Ymarfer Plant
AYPE	Adolygiad o Ymarfer Plant Estynedig
BDAC	Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
BLlDP	Bwrdd Lleol Diogelu Plant
BDGC	Byrddau Diogelu Gogledd Cymru
BDOGC	Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru
BDPGC	Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru
CAC	Cwmni Adsefydlu Cymunedol
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
CAMPUS	Penodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Realistig, Amserol
CBSC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
CBSW	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
CCH	Comisiynydd Cwynion yr Heddlu
CG	Cyngor Gwynedd
CRhB	Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
CSDd	Cyngor Sir Ddinbych
CSFf	Cyngor Sir y Fflint
CSYM	Cyngor Sir Ynys Môn
DPA	Dangosydd Perfformiad Allweddol
DGCLl	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
DoLS	Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid
GAPCG	Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
GCIGC	Gwasanaeth Cyngori Iechyd a Gofal Cymdeithasol
GCLl	Grwpiau Cyflawni Lleol
GH a DG	Grŵp Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu
GIP	Gofal Iechyd Parhaus
GPC	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
HGC	Heddlu Gogledd Cymru
ICC	Iechyd Cyhoeddus Cymru
IMO	Iechyd Meddwl Oedolion
LlC	Llywodraeth Cymru
MAPF	Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol
MARAC	Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd
NSPCC	Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
P a G	Polisi a Gweithdrefnau
PDGGC	Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol
POVA	Amddiffyn Oedolion sy'n Ddiamddiffyn
PRUDIC	Ymateb Trefniadol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod
PVPU	Uned Amddiffyn Unigolion Diamddiffyn